




TGAU
Manylebau i'w haddysgu
o 2009

Celfyddydau Perfformio



Cynnwys

TGAU CBAC mewn Celfyddydau Perfformio

I'w Addysgu o 2009 I'w Ddyfarnu o 2011

	Tudalen
Crynodeb o'r Asesiad	2
Rhagarweiniad	3
Cynnwys y Fanyleb	6
Cynllun Asesu	12
Dyfarnu, Adrodd ac Ailsefyll	17
Gweinyddu'r Asesiad dan Reolaeth	18
Disgrifiadau o'r Graddau	37
Y Cwricwlwm Ehangach	39
Atodiad I	44
Atodiad II	52
Atodiad III	58

CELFYDDYDAU PERFFORMIO CRYNODEB O'R ASESIAD DYFARNIAD GRADD UNIGOL

UNED 1 (120 marc) Asesiad dan Reolaeth 60% (30% Dwyrradd) Archwilio'r Celfyddydau Perfformio a'r Diwydiant Celfyddydau Perfformio
Bydd ymgeiswyr yn gwneud tair tasg asesiad dan reolaeth yn ymwneud ag ymchwil a wnaed ar waith ymarferol ac mewn maes sgiliau celfyddydau perfformio ychwanegol.
Wedi'i asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol ym mis Ebrill/Mai.
UNED 2 (80 marc) Asesiad Allanol 40% (20% Dwyrradd) Perfformiad Arddangos â Thema Iddo
Bydd ymgeiswyr naill ai'n creu perfformiad neu'n cyfrannu'r sgil cynhyrchu technegol o'u dewis at berfformiad mewn ymateb i thema y bydd y ganolfan yn ei gosod. Gall ymgeiswyr berfformio mewn mwy nag un ddisgyblaeth.
Wedi'i Asesu'n Allanol rhwng mis Mawrth a mis Mai.

DYFARNIAD DWYRADD

Er mwyn cael y Dwyrradd, rhaid i ymgeiswyr gwblhau Uned 1 ac Uned 2 yn llwyddiannus fel yr amlinellwyd uchod, yn ogystal ag Uned 3 ag Uned 4.

UNED 3 (120 marc) Asesiad dan Reolaeth 30% Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Celfyddydau Perfformio a'r Diwydiant Celfyddydau Perfformio
Bydd ymgeiswyr yn paratoi tair tasg asesiad dan reolaeth yn ymwneud â sgil celfyddydau perfformio newydd a gofynion gweithio yn y diwydiant Celfyddydau Perfformio. Bydd ymgeiswyr hefyd yn gwneud peth ymchwil ar waith ymarferol.
Wedi'i asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol ym mis Ebrill/Mai.
UNED 4 (80 marc) Asesiad Allanol 20% Perfformiad wedi'i Gomisiynu
Bydd ymgeiswyr naill ai'n creu perfformiad neu'n cyfrannu'r sgil cynhyrchu technegol o'u dewis at berfformiad mewn ymateb i gomisiwn y bydd CBAC yn ei osod. Bydd gofyn i ymgeiswyr gyflwyno gwaith mewn dwy ddisgyblaeth.
Wedi'i Asesu'n Allanol rhwng mis Mawrth a mis Mai.

DARPARIAETH YR ASESU A'R ARDYSTIO

	Cod Cofrestru		Mehefin 2010	Mehefin 2011 a phob blwyddyn wedi hynny
	Pwnc	Opsiwn*		
Uned 1	4771	01 neu W1	✓	✓
Uned 2	4772	01 neu W1	✓	✓
Uned 3	4773	01 neu W1		✓
Uned 4	4774	01 neu W1		✓
Gradd Unigol	4770	GU neu SA		✓
Dwyrradd	4770	DW neu DA		✓

*** Codau Opsiwn**

Cyfrwng Cymraeg W1, Cyfrwng Saesneg 01 - ar gyfer unedau
Cyfrwng Cymraeg GU, Cyfrwng Saesneg SA - ar gyfer gradd unigol
Cyfrwng Cymraeg DW, Cyfrwng Saesneg DA - ar gyfer dwyrradd

D.S. Yn Haf 2011 y bydd y Radd Unigol a'r Dwyrradd yn cael eu hardystio am y tro cyntaf

Rhif Achredu'r Cymhwyster: 500/5440/5(Unigol); 500/4640/9 (Dwyrradd)

CELFYDDYDAU PERFFORMIO (GRADD UNIGOL A DWYRADD)

1

RHAGARWEINIAD

Mae'r fanyleb hon yn ateb y Meini Prawf Cyffredinol ar gyfer TGAU. Bydd yr asesu ar gyfer y cymhwyster hwn yn cydymffurfio â gofynion graddio, dyfarnu ac ardystio'r Cod Ymarfer.

Adroddir cymwysterau TGAU ar raddfa wyth bwynt o A* i G, lle mai A* yw'r radd uchaf. Cofnodir cyrhaeddiad ymgeiswyr nad ydynt yn llwyddo i gyrraedd y safon isaf bosibl ar gyfer ennill gradd fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

1.1 Sail Resymegol

Bwriad y fanyleb hon yw pwysleisio rhinweddau unigryw'r Celfyddydau Perfformio. Bydd yr ymgeiswyr yn cael cyfleoedd i ddadansoddi a gwerthuso nodweddion arwyddocaol ar eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau eraill gan gynnwys gwyllo perfformiadau byw ac wedi'u recordio ac ymateb iddynt.

Mae'r fanyleb hon yn cynnig cydbwysedd o berfformio ymarferol, gwaith grŵp creadigol ac ymchwil sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae'n cynnig cyfleoedd i'r ymgeiswyr ddangos sgiliau perfformio neu dechnegol/dylunio.

Gall yr ymgeiswyr gwblhau'r dyfarniad gradd unigol drwy astudio Uned 1 ac Uned 2. Ar ôl cwblhau'r rhain, gall yr ymgeiswyr ddewis parhau gydag Uned 3 ac Uned 4 i gael dyfarniad dwyradd. Gellir gwneud hyn dros flwyddyn neu ddwy flynedd.

Lluniwyd y fanyleb hon i annog datblygiad cynyddol yn y Celfyddydau Perfformio. Mae'r tasgau dan reolaeth yn Uned 1 yn cynnwys ymchwil ar amrediad o weithgareddau Celfyddydau Perfformio a pharatoi am y gwaith ymarferol a wneir yn Uned 2. Disgwylir y bydd yr ymchwil a wneir yn ystod Uned 1 yn arwain at well perfformiad yn Uned 2. Mae'r un cysylltiadau'n berthnasol i Uned 3 ac Uned 4 am y dyfarniad dwyradd. Yn Uned 4 bydd gwaith yr ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth o ddau Sgil Celfyddydau Perfformio.

Mae'r fanyleb hon a'r holl unedau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

1.2 Nodau a Chanlyniadau Dysgu

Dylai'r fanyleb TGAU mewn Celfyddydau Perfformio hon annog myfyrwyr i gael eu hysbrydoli, eu cyffroi a'u newid drwy ddilyn cwrs astudio eang, cydlynol, buddiol a gwerth chweil. Ei nod yw paratoi dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am gyfleoedd dysgu a dewisiadau gyrfa pellach.

Bydd dilyn cwrs TGAU mewn Celfyddydau Perfformio yn galluogi myfyrwyr i:

- datblygu a dangos sgiliau mewn amrediad o waith ymarferol, creadigol a pherfformio;

- ymwneud yn weithredol yn y broses o astudio amryfal ffurfiau ar berfformio, er mwyn datblygu fel dysgwyr effeithlon ac annibynnol ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol â meddyliau chwilfrydig;
- datblygu dealltwriaeth o weithio yn y diwydiant Celfyddydau Perfformio;
- deall y diwydiant Celfyddydau Perfformio fel ymarferwr ac fel gwylwr;
- gweithio'n ddychmygus ac yn greadigol mewn cyd-destunau cydweithredol, gan greu, datblygu a chyfathrebu syniadau;
- ystyried eu gwaith eu hunain a gwaith eraill a'i werthuso;
- deall yr elfennau sydd eu hangen i greu perfformiadau ar gyfer y gynulleidfa.

1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant

Er nad oes unrhyw ofyniad penodol am ddysgu blaenorol, mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar y Rhaglenni Astudio ar gyfer Celf, Dawns, Dylunio a Thechnoleg, Drama/Saesneg a Cherddoriaeth yng Nghyfnodau Allweddol 1 – 3.

Mae hefyd yn adeiladu ar y gwaith y gall ymgeiswyr fod wedi'i wneud mewn gweithgareddau allgwrwicwlaidd yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Gall unrhyw ymgeisydd ddilyn y fanyleb hon, waeth beth fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Nid yw'n benodol i oedran ac, fel y cyfryw, mae'n cynnig cyfleoedd i ymgeiswyr estyn eu dysgu gydol oes.

Bydd y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn ystod y cwrs yn cyfrannu'n arwyddocaol at bynciau eraill ar lefel gyfatebol.

Mae'r fanyleb hon yn cynnig sail addas i astudio cyrsiau TAG Celfyddydau Perfformio, ar gyfer amrediad o gyrsiau Lefel 2 neu 3 sy'n arbenigo mewn Celfyddydau Perfformio neu fynediad uniongyrchol i gyflogaeth fel perfformwyr neu weithwyr cefnogi technegol yn y diwydiant Celfyddydau Perfformio.

1.4 Cydraddoldeb ac Asesu Teg

Mae arholiadau TGAU yn aml yn gofyn am asesu amrediad eang o gymwyseddau. Mae hyn oherwydd eu bod yn gymwysterau cyffredinol, a'u bod, fel y cyfryw, yn paratoi ymgeiswyr am amrediad o alwedigaethau a chyrtsiau lefel uwch.

Mae'r cymhwyster TGAU a'r meini prawf pwnc diwygiedig wedi'u hadolygu er mwyn gweld a oedd unrhyw un o'r cymwyseddau oedd yn ofynnol i'r pwnc yn rhwystr posibl i unrhyw ymgeiswyr anabl. Os oedd hyn yn wir, cafodd y sefyllfa ei hadolygu eto i sicrhau mai lle roedd y cymwyseddau hyn yn hanfodol i'r pwnc yn unig y caent eu cynnwys. Trafodwyd casgliadau'r broses hon â grwpiau anabledd ac â phobl anabl.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd. Am y rheswm hwn, ychydig iawn o ymgeiswyr fydd yn cael eu hatal yn llwyr rhag gallu cymryd rhan mewn unrhyw ran o'r asesiad. Efallai y bydd hi'n anodd i bob llwybr o ran yr opsiynau fod ar gael i ymgeiswyr ag anabledd corfforol ac felly efallai y bydd rhai ymgeiswyr anabl wedi'u cyfyngu o ran pa ddisgyblaeth y gallant weithio ynddi. Er enghraifft, gall ymgeiswyr sydd ag anabledd corfforol a all effeithio ar eu gallu i berfformio gymryd un o'r opsiynau dylunio technegol. Ceir gwybodaeth am addasiadau rhesymol yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) Rheoliadau ac Arweiniad yn Ymwneud ag Ymgeiswyr sy'n gymwys i gael Addasiadau mewn Arholiadau. Ceir y ddogfen hon yn Saesneg ar wefan JCQ (www.jcq.org.uk) ac yn Gymraeg ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk).

Efallai y bydd ymgeiswyr nad yw rhan arwyddocaol o'r asesiad o fewn eu cyrraedd o hyd, hyd yn oed ar ôl archwilio'r holl bosibiliadau drwy addasiadau rhesymol, yn dal i allu derbyn dyfarniad. Byddent yn cael gradd am y rhannau o'r asesiad y maent wedi'u cymryd a byddai nodyn ar eu tystysgrif na roddwyd sylw i bob un o'r cymwyseddau. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n achlysurol a gellir ei newid yn y dyfodol.

1.5 Codau Dosbarthu

Rhoddir cod dosbarthu cenedlaethol i bob manyleb, gan nodi'r maes pwnc y mae'n perthyn iddo. 0015 yw'r cod dosbarthu i'r fanyleb hon.

Dylai'r canolfannau fod yn ymwybodol mai un radd yn unig (yr uchaf) fydd yn cael ei chyfrif at ddibenion Tablau Perfformiad Ysgolion a Cholegau gan ymgeiswyr sy'n cofrestru am fwy nag un cymhwyster TGAU sydd â'r un cod dosbarthu.

Efallai bydd canolfannau'n dymuno cynghori ymgeiswyr, os byddant yn gwneud dwy fanyleb â'r un cod dosbarthu, y bydd ysgolion a cholegau'n debygol iawn o farnu iddynt gyflawni un yn unig o'r ddwy TGAU. Gellir barnu'r un fath os bydd ymgeiswyr yn cymryd dwy fanyleb TGAU sydd â chodau dosbarthu gwahanol ond bod y cynnwys yn gorgyffwrdd yn sylweddol. Dylai ymgeiswyr sydd ag unrhyw amheuaeth am eu cyfuniadau pwnc wirio gyda'r sefydliad y maent yn dymuno symud ymlaen iddo cyn dechrau ar eu rhaglenni.

2

CYNNWYS

Caiff ymgeiswyr gynhyrchu gwaith o'r disgyblaethau Celfyddydau Perfformio canlynol. Dylent gael eu hannog i brofi amrediad eang o sgiliau perfformio. Er enghraifft, efallai y bydd ymgeisydd sy'n arbenigo mewn drama'n dymuno canu a chyflwyno gwaith yn genre y theatr gerdd.

Derbynnir y sgiliau canlynol:

Actio

Sgiliau Syrcas (jyglu, gyrru beic un olwyn, consurio, ac ati)

Dawns

Bod yn droellwr (*DJ*)

Cerddoriaeth (perfformiad lleisiol ac offerynnol)

Technoleg cerdd

Sgiliau cynhyrchu technegol (gwisgoedd a cholur **neu set neu oleuo neu** ddylunio sain **neu** reoli llwyfan)

Nid yw'r rhestr yn cynnwys popeth. Dylai canolfannau gysylltu â CBAC i gael cymeradwyaeth i sgiliau y gall ymgeiswyr fod eisiau eu cynnig, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr uchod.

Uned 1: Archwilio'r Celfyddydau Perfformio a'r Diwydiant Celfyddydau Perfformio (60% Gradd Unigol, 30% Dwyrradd)

Bwriad PA1 yw cyflwyno'r ymgeiswyr i fyd y Celfyddydau Perfformio ac i'w paratoi am y gwaith ymarferol y byddant yn ei wneud.

Er mwyn cyflwyno'r ymgeiswyr i'r Celfyddydau Perfformio a'r diwydiant Celfyddydau Perfformio ac i wella'u sgiliau unigol bydd angen iddynt gwblhau'r canlynol:

1. *Datblygu Sgiliau Celfyddydau Perfformio*

Bydd yr ymgeiswyr yn ymgymryd ag archwiliad o **un** o'u sgiliau Celfyddydau Perfformio ar ddechrau'r cwrs ac wedyn yn dilyn cynllun gweithredu sydd â thargedau eglur ac amserlenni er mwyn gwella. Dylid mynd yn ôl at y cynllun hwn a'i ddiweddarau gydol y cwrs. Caiff ymgeiswyr eu hannog i gofnodi eu cynnydd wrth ddatblygu sgîl perfformio penodol naill ai ar CD, MD neu dâp sain neu ar fideo/DVD. Byddant hefyd yn cwblhau tasg fer i ddangos eu dysgu a'u datblygiad a byddant yn dadansoddi a gwerthuso'u gwaith. Bydd y dadansoddiad hefyd yn cynnwys ymchwil i waith o leiaf un perfformiwr/technegydd yn y sgîl a ddetholwyd. Yn ddelfrydol, gwaith person proffesiynol yn y diwydiant fyddai hwn, a allai fod wedi cael ei weld fel perfformiad byw neu fel recordiad fideo/sain. Yn ddelfrydol dylai'r ymgeiswyr weld gwaith byw, ond mae gwaith wedi'i recordio hefyd yn dderbyniol. Mae gwaith amaturiaid hefyd yn dderbyniol. Bydd yr ymgeiswyr yn cynnwys adroddiad manwl o'r sgiliau penodol y maen nhw'n bwriadu eu mabwysiadu/eu haddasu yn eu gwaith eu hunain ac yn dadansoddi a gwerthuso pa mor llwyddiannus oedden nhw o ran cyflawni eu bwriad. Caiff yr ymgeiswyr eu hannog i gael cymaint o brofiad o berfformiadau byw ag sy'n bosibl.

2. *Gwybodaeth o'r Diwydiant Celfyddydau Perfformio*

Bydd yr ymgeiswyr yn ymchwilio i'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer **dwy** swydd yn y diwydiant Celfyddydau Perfformio, o'r rhestr ar frig tudalen 6. Gwneir hyn fel darn o ymchwil gan ddefnyddio'r rhyngwyd, y llyfrgell, cyfweiliad â chyflogwr neu weithiwr, ac ati. Bydd yr ymgeiswyr yn cwblhau adroddiad ysgrifenedig yn amlinellu'r cymwysterau allweddol, y sgiliau proffesiynol, y sgiliau personol a'r cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pob swydd. Byddant hefyd yn amlinellu pa mor addas ydyn nhw ar gyfer **un** o'r rolau y maent wedi ymchwilio iddi.

3. *Paratoi am Berfformiad*

Bydd yr ymgeiswyr yn gwneud yr ymchwil ar y Perfformiad Arddangos â Thema Iddo y byddant yn ei gynhyrchu yn Uned 2.

Bydd yr ymchwil hwn yn cynnwys:

- dethol deunydd addas, yn cyd-fynd â'r thema a ddewiswyd, ar gyfer yr ymgeisydd ac ar gyfer **un** maes sgil perfformio arall a nodir ar dudalen 6;
- manylion o leiaf dau leoliad (naill ai'n lleol neu'n genedlaethol) a fyddai'n addas i'r perfformiad;
- amcangyfrif o gost y lleoliad a'r offer;
- adroddiad byr yn dangos dealltwriaeth o oblygiadau iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â rôl yr ymgeisydd a'r **union** le perfformio a ddewiswyd.

Er y bydd yr ymgeiswyr yn ymchwilio i leoliadau a'r costau ar gyfer y perfformiad nid oes disgwyl i'r perfformiad yn Uned 2 ddigwydd mewn lleoliad allanol nac iddo olygu cost ychwanegol.

Uned 2: Perfformiad Arddangos â Thema Iddo (40% Gradd Unigol, 20% Dwyrradd)

Bydd yr ymgeiswyr yn creu perfformiad arddangos ar thema y bydd y ganolfan yn ei gosod. Bydd pob canolfan yn llenwi ffurflen barod y bydd CBAC yn ei darparu ym mis Ionawr, yn nodi'n gryno'r deunydd a gyflwynir ar gyfer y perfformiad hwn.

Bydd hyd y perfformiad yn amrywio'n unol â'r disgyblaethau y mae'r ymgeiswyr wedi'u dewis a bydd yn cael ei weithio allan yn ôl y fformiwla o **5** munud yr ymgeisydd. Bydd dim **llai na 2** a dim **mwya na 5** ymgeisydd **yn perfformio** ym mhob grŵp. At hyn, gall pob grŵp fod â hyd at uchafswm o **ddau** ymgeisydd dylunio technegol, pob un yn cynnig **sgil gwahanol**. Caiff ymgeiswyr ymddangos mewn perfformiad grŵp heb gael eu hasesu.

Rhaid i'r ymgeiswyr dylunio a chynhyrchu technegol ddangos eu sgil drwy arddangos eu dyluniadau ar y diwrnod a gweithredu unrhyw offer fel y bo angen. Byddant hefyd yn trafod y broses gynllunio â'r arholwr mewn cyflwyniad byr a fydd yn para dim **mwya na 5 munud**. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw dystiolaeth ymchwil o broses a datblygu syniadau a thafleuni ciw.

Rhaid i'r ymgeiswyr ddethol y gynulleidfa darged y mae'r perfformiad wedi'i anelu ati. Bydd pob perfformiad yn digwydd o flaen cynulleidfa ond dylid nodi, er y bydd yr ymgeiswyr yn cynllunio eu cyflwyniad ar gyfer cynulleidfa benodol, nad oes rhaid iddo gael ei berfformio i'r gynulleidfa a fwriadwyd o angenrheidrwydd.

Rhaid nodi nad yw cynrychiadau ysgol yn dderbyniol i'w hasesu yn yr uned hon, ond derbynnir detholiadau o gynrychiadau o'r fath wedi'u perfformio o dan yr amodau arholiad a nodir yn y fanyleb hon.

Mae enghreifftiau o themâu a natur cynulleidfaoedd yn cynnwys:

- *Dewch i Ymuno â'r Syrcas*: perfformiad o sgiliau syrcas a dawns wedi'i anelu at ddisgyblion ym mlynnyddoedd 2 a 3.
- *Cerddoriaeth Boblogaidd*: noson o gerddoriaeth boblogaidd a dawns wedi'i chyflwyno i bobl ifanc yn eu harddegau mewn clwb ieuenctid lleol.
- *Ers Llauer Dydd / Ers Talwm*: perfformiad o gerddoriaeth a drama wedi'i anelu at yr henoed yn y gymuned.
- *Caneuon o'r Sioeau*: noson o gerddoriaeth offerynnol a lleisiol o'r theatr gerdd wedi'i pherfformio i'r gymdeithas ddrama amatur leol.

Bydd yr ymgeiswyr yn gweithio mewn grwpiau i gyflwyno'u gwaith. Anogir eitemau unigol yn y perfformiad, ond dylai'r ymgeiswyr weithio ar y cyd i gynhyrchu nifer o berfformiadau ar un thema.

Mae gofyn i'r ymgeiswyr ddadansoddi a gwerthuso'r gwaith y maen nhw a'u grŵp wedi'i gyflwyno yn Uned 2, yn ddelfrydol drannoeth yr asesiad. Bydd y dadansoddiad a'r gwerthusiad ysgrifenedig hwn yn cynnwys manylion am:

- ddadansoddiad yr ymgeisydd o'i gynnydd ei hun a chynnydd eraill wrth baratoi perfformiad Uned 2;
- sut y cafodd sgiliau a syniadau'r ymgeisydd ei hun ac eraill eu haddasu a/neu'u mabwysiadu yn ystod y broses baratoi;
- dadansoddiad o'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y broses, gan gyfoedion, athrawon a'r gynulleidfa a sut y gwnaeth hyn effeithio ar y perfformiad terfynol;
- gwerthusiad o'u gwaith eu hunain a gwaith eraill, gan nodi cyfleoedd a llwyddiannau a dadansoddiad o'r profiad a'r dysgu i hysbysu cynnydd y dyfodol.

Bydd y dasg yn cael ei gwneud o dan amodau arholiad ffurfiol, yn para am un awr a chaiff ei hasesu'n allanol.

Caiff y perfformiad ei asesu gan arholwr ymweld a bydd yn cael ei recordio ar fideo gan y ganolfan. Caiff y DVD/fideo a'r gwerthusiadau eu hanfon i CBAC erbyn dyddiad penodol.

Dwyradd

Uned 3: Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Celfyddydau Perfformio a Diwydiant y Celfyddydau Perfformio (30% Dwyradd)

Bwriad Uned 3 yw datblygu ac adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Celfyddydau Perfformio y mae'r ymgeiswyr wedi'u caffael yn Uned 1 ac Uned 2, ac i'w paratoi ar gyfer y gwaith ymarferol y byddant yn ei wneud.

Er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeiswyr o'r Celfyddydau Perfformio a'r diwydiant Celfyddydau Perfformio ymhellach ac i wella'u sgiliau unigol, bydd angen iddynt gwblhau'r canlynol:

1. *Cynllun Datblygu Sgîl Newydd*

Bydd yr ymgeiswyr yn dethol sgîl celfyddydau perfformio **newydd**, o'r rhestr ar dudalen 6 y fanyleb, ac yn datblygu cynllun gweithredu gyda thargedau eglur ac amserlenni er mwyn gwella. Dylid mynd yn ôl at y cynllun hwn a'i ddiweddarau gydol y cwrs. Caiff ymgeiswyr eu hannog i gofnodi eu cynnydd wrth ddatblygu'r sgîl newydd hwn naill ai ar CD, MD neu dâp sain, neu ar fideo/DVD. Byddant yn cwblhau tasg fer i ddangos eu dysgu a'u datblygiad a byddant yn dadansoddi a gwerthuso'u gwaith. Bydd y dadansoddiad hefyd yn cynnwys ymchwil i waith o leiaf un perfformiwr/technegydd yn y sgîl a ddetolwyd. Yn ddelfrydol, gwaith person proffesiynol yn y diwydiant fyddai hwn, a allai fod wedi cael ei weld fel perfformiad byw neu fel recordiad fideo/sain. Yn ddelfrydol dylai'r ymgeiswyr weld gwaith byw, ond mae gwaith wedi'i recordio hefyd yn dderbyniol. Mae gwaith amaturiaid hefyd yn dderbyniol. Bydd yr ymgeiswyr yn cynnwys adroddiad manwl o'r sgîliau penodol y maen nhw'n bwriadu eu mabwysiadu/eu haddasu yn eu gwaith eu hunain ac yn dadansoddi a gwerthuso pa mor llwyddiannus oedden nhw o ran cyflawni eu bwriad. Caiff ymgeiswyr eu hannog i gael cymaint o brofiad o berfformiadau byw ag sy'n bosibl.

2. *Dysgu Estynedig yn y Celfyddydau Perfformio*

Bydd yr ymgeiswyr yn datblygu eu sgîliau yn y celfyddydau perfformio fel dysgu estynedig, y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gallai hyn fod ar sawl ffurf, gan gynnwys cymryd rhan mewn gwersi a/neu arholiadau perfformio allanol, perfformio neu roi cymorth technegol mewn grwpiau/clybiau ieuencid, helpu wrth baratoi disgyblion iau am berfformiad, cymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiadau drama amatur/adloniant, gan gynnwys cymryd rhan yng nghynhyrchiad yr ysgol, ac ati. Dylid annog yr ymgeiswyr i gymryd rhan mewn amrywiaeth mor eang â phosibl o weithgareddau.

Bydd yr ymgeiswyr yn cwblhau adroddiad yn manylu ar y tasgau penodol a wnaethant ac yn dadansoddi'r hyn y maent wedi'i ddysgu o ganlyniad i ymwneud â'r gweithgareddau hyn. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o:

- sgîliau cychwynnol yr ymgeisydd a sut y gwnaethon nhw ddatblygu yn ystod y dasg;
- y sgîliau newydd a ddysgwyd o ganlyniad i ymwneud â'r dasg;
- eu gallu i ymateb i heriau newydd ac i addasu i rolau a sefyllfaoedd newydd;
- pa mor gyfrifol roedd yr ymgeisydd am ei ddysgu ei hun a'i gyfraniad i'r dasg;
- profiad a dysgu'r ymgeisydd i hysbysu cynnydd y dyfodol;
- sut mae'r tasgau a wnaed yn ymwneud â'r diwydiant Celfyddydau Perfformio.

Rhaid i'r ymgeiswyr gynnwys o leiaf un datganiad tyst gan oruchwyliwr/cyfranogwr o oedolyn, gan gynnwys athrawon, gyda'r adroddiad.

3. *Cynnig ar gyfer Perfformiad wedi'i Gomisiynu*

Bydd yr ymgeiswyr yn cynnwys ymchwil ar y perfformiad y byddant yn ei gynhyrchu yn Uned 4, mewn ymateb i gomisiwn y bydd CBAC yn ei osod.

Bydd yr ymchwil hwn yn cynnwys:

- dau gynnig yn ymateb i'r dasg comisiwn y bydd CBAC yn ei gosod;
- manylion o leiaf dau leoliad (naill ai'n lleol neu'n genedlaethol) a fyddai'n addas i'r perfformiad;
- amcangyfrif o gost y lleoliad a'r offer;

- rhestr o fanylion y perfformiad;
- creu deunydd marchnata gan gynnwys poster yn hysbysebu'r digwyddiad, tocyn a rhaglen);
- adroddiad byr yn dangos dealltwriaeth o oblygiadau iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â rôl yr ymgeisydd a'r lleoliad perfformio **gwirioneddol** a ddewiswyd.

Er y bydd yr ymgeiswyr yn ymchwilio i leoliadau a'r costau ar gyfer y perfformiad nid oes disgwyl i'r perfformiad yn Uned 2 ddigwydd mewn lleoliad allanol.

Uned 4: Perfformiad wedi'i Gomisiynu (20% Dwyradd)

Bydd yr ymgeiswyr yn creu perfformiad mewn ymateb i gomisiwn fel y nodir isod. Disgwylir i'r ymgeiswyr ddangos **da** sgil yn y Celfyddydau Perfformio o'r rhestr ar dudalen 6. Gall un o'r sgiliau a ddangosir fod yr un fath â'r sgil a gyflwynwyd yn Uned 2. Bydd pob canolfan yn llenwi ffurflen barod y bydd CBAC yn ei darparu ym mis Ionawr, yn nodi'n gryno'r deunydd a gyflwynir ar gyfer y perfformiad hwn.

Bydd hyd y perfformiad yn amrywio'n unol â'r disgyblaethau y mae'r ymgeiswyr wedi'u dewis a bydd yn cael ei weithio allan yn ôl y fformiwla o 8 munud yr ymgeisydd. Bydd dim **llai na 2** a dim **mwya na 5** ymgeisydd **yn perfformio** ym mhob grŵp. At hyn, gall pob grŵp fod â hyd at uchafswm o **ddau** ymgeisydd dylunio technegol, pob un yn cynnig **sgil gwahanol**. Caiff ymgeiswyr ymddangos mewn perfformiad grŵp heb gael eu hasesu.

Rhaid i'r ymgeiswyr dylunio a chynhyrchu technegol ddangos eu sgil drwy arddangos eu dyluniadau ar y diwrnod a gweithredu unrhyw offer fel y bo angen. Byddant hefyd yn trafod y broses gynllunio â'r arholwr mewn cyflwyniad byr a fydd yn para dim mwya na **5 munud**. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw dystiolaeth ymchwil o broses a datblygu syniadau a thafenni ciw.

Bydd yr ymgeiswyr yn gweithio mewn grwpiau i gyflwyno'u gwaith. Anogir eitemau unigol yn y perfformiad, ond dylai'r ymgeiswyr weithio ar y cyd i gynhyrchu nifer o berfformiadau mewn ymateb i'r comisiwn.

Gall y perfformiadau ddigwydd o flaen cynulleidfa, nid y gynulleidfa darged o angenrheidrwydd.

Rhaid nodi nad yw cynrychiadau ysgol yn dderbyniol i'w hasesu yn yr uned hon, ond derbynnir detholiadau o gynrychiadau o'r fath wedi'u perfformio o dan yr amodau arholiad a nodir yn y fanyleb hon

Mae gofyn i'r ymgeiswyr ddadansoddi a gwerthuso'r gwaith y maen nhw a'u grŵp wedi'i gyflwyno yn Uned 4, yn ddelfrydol drannoeth yr asesiad. Bydd y dadansoddiad a'r gwerthusiad ysgrifenedig hwn yn cynnwys manylion am:

- ddadansoddiad yr ymgeisydd o'i gynnydd ei hun a chynnydd eraill wrth baratoi'r perfformiad Uned 4;
- sut y cafodd sgiliau a syniadau'r ymgeisydd ei hun ac eraill eu haddasu a/neu'u mabwysiadu yn ystod y broses baratoi;

- dadansoddiad o'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y broses, gan gyfoedion, athrawon a'r gynulleidfa a sut y gwnaeth hyn effeithio ar y perfformiad terfynol;
- gwerthusiad o'u gwaith eu hunain a gwaith eraill, gan nodi cyfleoedd a llwyddiannau a dadansoddiad o'r profiad a'r dysgu i hysbysu cynnydd y dyfodol.

Bydd y dasg yn cael ei gwneud o dan amodau arholiad ffurfiol, yn para am un awr a chaiff ei hasesu'n allanol.

Caiff y perfformiad ei asesu gan arholwr ymweld a bydd yn cael ei recordio ar fideo gan y ganolfan. Caiff y DVD/fideo a'r gwerthusiadau eu hanfon i CBAC erbyn dyddiad penodol.

Briff y Perfformiad wedi'i Gomisiynu ar gyfer yr arholiad yn 2011

Rydych wedi cael eich comisiynau i greu perfformiad a gaiff ei berfformio yn eich cymuned leol. Teitl y comisiwn yw *Byd Arall*.

3

ASESU

3.1 Cynllun Asesu

Nid oes haenau i'r asesu ar gyfer TGAU Celfyddydau Perfformio, h.y. mae pob elfen yn darparu ar gyfer yr ystod allu lawn ac yn caniatáu mynediad i raddau A* -G neu A*A* - GG ar gyfer y dyfarniad gradd unigol a dwyradd yn y drefn honno.

Bydd y cynllun asesu'n cynnwys:

DYFARNIAD GRADD UNIGOL

Uned 1 Tasgau Asesiad dan Reolaeth 60% Dyfarniad Gradd Unigol, 30% Dwyradd

Rhaid i'r ymgeiswyr gyflwyno tair tasg asesiad dan reolaeth fel y nodir o dan Adran 5, tudalen 18.

Caiff y tasgau hyn gyda'i gilydd eu marcio allan o 120. (60 marc am dasg un, a 30 marc yr un am dasgau dau a thri).

Caiff y gwaith hwn ei asesu'n fewnol gan yr athro gan ddefnyddio'r meini prawf asesu.

Anfonir sampl o waith i CBAC i'w safoni'n allanol. Caiff y gwaith ei gyflwyno ar ddyddiad penodol yn nhymor yr haf.

Y gwaith a gwblhawyd gan yr ymgeiswyr yn y sampl yn unig y bydd angen i'r safonwr ei weld. Nid oes angen anfon unrhyw ddeunydd atodol a/neu atodiadau heblaw am y rhai a nodir yn Adran 5.

Uned 2 Perfformiad Arddangos â Thema Iddo: 40% Dyfarniad Gradd Unigol, 20% Dwyradd

Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu ar eu perfformiad yn seiliedig ar thema y bydd y ganolfan yn ei gosod. Caiff amseriad y perfformiad ei weithio allan yn ôl y canllawiau ar dudalen 7. Caiff y gwaith ei asesu'n allanol gan arholwr ymweld o CBAC yn ystod tymor yr haf.

Bydd y meini prawf asesu cyffredinol a amlinellir yn Atodiad II yn berthnasol i bob perfformiad neu sgiliau cynhyrchu technegol. Fodd bynnag, mae'r sgiliau unigol sy'n ofynnol gan y disgyblaethau a ddewiswyd gan yr ymgeiswyr wedi'u hamlinellu isod:

Actio:

- defnyddio symudiad ac ystum;
- defnyddio'r llais yn gysylltiedig â chymeriad;
- cyfathrebu'r cymeriad;
- rhyngweithio â pherfformwyr eraill;
- sgiliau cydweithio.

Sgiliau Syrcas:

- rheolaeth dechnegol ar y sgîl(sgiliau) a ddewiswyd);
- perfformiad cywir;
- dehongliad;
- creadigrwydd yn y perfformiad;
- sgiliau cydweithio.

Cynllunio gwisgoedd a cholur:

- cyfres o luniadau'n cynnwys manylion defnyddiau a mesuriadau ac ati'n arwain at y cynllun terfynol;
- y gwisgoedd gorffenedig a'r colur mewn perfformiad (lleiafswm o ddwy wisg);
- sgiliau creadigol;
- sgiliau dehongli;
- sgiliau cydweithio.

Dawns:

- rheolaeth o'r corff ac ymwybyddiaeth o le;
- rhugledd o ran y llinell;
- dehongli'r gerddoriaeth;
- creadigrwydd yn y coreograffi;
- sgiliau cydweithio.

Bod yn droellwr:

- gwybodaeth dechnegol o'r caledwedd a ddefnyddir;
- amrediad o seiniau a ddefnyddir;
- dehongli'r gwaith;
- creadigrwydd yn y perfformiad;
- sgiliau cydweithio.

Goleuo

- gwybodaeth am sut i osod rig/plot goleuo;
- defnydd o liw ac effeithiau goleuo gwahanol (lleiafswm o 4) ar gyfer dehongli'r perfformiad;
- gweithredu'r system yn gywir yn ystod y perfformiad;
- creadigrwydd o ran y dyluniad;
- cydweithio.

Cerddoriaeth

- sgiliau technegol ar yr offeryn a ddewiswyd neu'r llais;
- cywirdeb y perfformiad;
- dehongli'r gerddoriaeth;
- creadigrwydd o ran y cyfansoddiad a/neu'r perfformiad;
- sgiliau cydweithio.

Technoleg cerdd

- gwybodaeth dechnegol o'r feddalwedd a'r caledwedd a ddefnyddir;
- sain amrywiol ac wedi'i chydbwysu;
- dehongli'r gwaith;
- creadigrwydd o ran y cyfansoddiad;
- sgiliau cydweithio.

Dylunio set:

- cyfres o luniadau'n cynnwys manylion defnyddiau a mesuriadau ac ati'n arwain at y dyluniad terfynol;
- model wrth raddfa o'r dyluniad (un go iawn neu wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur);
- sgiliau dehongli
- sgiliau creadigol
- cydweithio.

Dylid nodi nad oes rhaid i'r dyluniad set terfynol fod yr un â'r dyluniad a ddefnyddiwyd yn y perfformiad.

Sain

- gosod system sain a gwybodaeth am offer technegol eraill (CD, MDau, MP3 ac ati.);
- cydbwysedd sain ac effeithiau priodol (taflen giwiau lefelau);
- dehongli'r thema a'r creadigrwydd yn y dyluniad, gan gynnwys sain fyw;
- gweithredu'r system yn gywir yn ystod y perfformiad;
- cydweithio.

Rheoli Llwyfan:

- sgrïpt cofweini gan gynnwys taflenni ciwiau;
- rhestr celfi a bwrdd celfi;
- taflen alw;
- rhedeg y perfformiad;
- cydweithio.

Bydd ymgeiswyr yn gwneud gwerthusiad a dadansoddiad o'u gwaith eu hunain a gwaith eraill a gyflwynwyd ar gyfer Uned 2. Caiff hwn ei asesu'n allanol.

Gweinyddu

Bydd canolfannau'n llenwi ffurflen barod yn nhymor y gwanwyn yn amlinellu thema a natur y perfformiadau gan gynnwys y gynulleidfa darged, y lleoliad a'r dyddiadau sy'n cael eu ffafrio ac amseriadau'r grwpiau. (Ffurflen Uned 2A yn Atodiad II.)

Rhoddir gwybod i'r ganolfan cyn gynted ag sy'n bosibl am y dyddiad pan fydd yr arholwr ymweld yn mynychu. Bydd canolfannau'n llenwi ffurflen Uned 2B sy'n rhestru enwau'r ymgeiswyr ac amlinelliad o'r gwaith i'w gyflwyno. Hefyd cyflwynir ffotograff i'r arholwr o bob ymgeisydd yn nhrefn eu taldra, yn dal eu rhif arholiad a fydd wedi'i ddangos yn eglur. Bydd hyn yn gymorth i'r arholwr adnabod y disgyblion a sicrhau bod y marcio'n gywir. Caiff y deunyddiau hyn eu paratoi ymlaen llaw i'r arholwr ymweld.

Bydd yr ymgeiswyr yn gwerthuso eu gwaith eu hunain ac eraill a gyflwynwyd ar gyfer perfformiad Uned 2, yn ddelfrydol drannoeth y perfformiad, neu mor agos ag sy'n bosibl. Bydd hyn yn digwydd o dan amodau arholiad, gan bara am un awr.

Rhaid i ganolfannau wneud recordiad fideo o asesiad Uned 2 a'i anfon ynghyd â gwerthusiadau'r ymgeiswyr o'r perfformiad ddim mwy na **7 niwrnod gwaith** ar ôl yr arholiad.

Bydd yr ymweliadau'n digwydd rhwng mis Mawrth a mis Mai.

DYFARNIAD DWYRADD

Yn ogystal ag Uned 1 ac Uned 2 uchod, rhaid i'r ymgeiswyr gwblhau Uned 3 ac Uned 4 fel y nodir isod.

Uned 3 Asesiad dan Reolaeth: 30% Dwyradd

Rhaid i'r ymgeiswyr gyflwyno tair tasg asesiad dan reolaeth fel y nodir o dan Adran 5.

Caiff y tasgau hyn gyda'i gilydd eu marcio allan o 120. (60 marc am dasg un, a 30 marc yr un am dasgau dau a thri).

Caiff y gwaith hwn ei asesu'n fewnol gan yr athro/athrawes gan ddefnyddio'r meini prawf asesu yn Adran 5.

Anfonir sampl o waith i CBAC i'w safoni'n allanol. Caiff y gwaith ei gyflwyno ar ddyddiad penodol yn nhymor yr haf.

Y gwaith a gwblhawyd gan yr ymgeiswyr yn y sampl yn unig y bydd angen i'r safonwr ei weld. Nid oes angen anfon unrhyw ddeunyddiau atodol a/neu atodiadau, heblaw am y rhai a nodir yn Adran 5.

Uned 4 Perfformiad wedi'i Gomisiynu: 20% Dwyradd

Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu ar eu perfformiad mewn ymateb i gomisiwn a osodwyd gan TGAU (gweler tudalen 11). Caiff amseriad y perfformiad ei weithio fel yr amlinellir ar dudalen 10. Rhaid i'r ymgeiswyr gyflwyno gwaith o **ddwy** ddisgyblaeth y celfyddydau perfformio, fel yr amlinellir ar dudalen 6.

Caiff y gwaith hwn ei asesu'n allanol gan arholwr ymweld o CBAC rhwng mis Mawrth a mis Mai.

Bydd y meini prawf asesu cyffredinol yn berthnasol i bob perfformiad neu sgiliau cynhyrchu technegol. Yn ogystal amlinellir y sgiliau unigol sy'n ofynnol gan ddisgyblaethau'r ymgeiswyr yn Uned 2 ar dudalennau 12 i 14.

Gweinyddu

Bydd canolfannau'n llenwi ffurflen barod yn nhymor y gwanwyn yn amlinellu manylion perfformiad gan gynnwys manylion am y lleoliad, y dyddiadau sy'n cael eu ffafrio ac amseriadau'r grwpiau.

Rhoddir gwybod i'r ganolfan cyn gynted ag sy'n bosibl am y dyddiad pan fydd yr arholwr ymweld yn mynychu. Bydd canolfannau'n llenwi ffurflen Uned 4B sy'n rhestru enwau'r ymgeiswyr ac amlinelliad o'r gwaith i'w gyflwyno. Hefyd cyflwynir ffotograff i'r arholwr o bob ymgeisydd yn nhrefn eu taldra, yn dal eu rhif arholiad a fydd wedi'i ddangos yn eglur. Bydd hyn yn gymorth i'r arholwr adnabod y disgyblion a sicrhau bod y marcio'n gywir. Caiff y deunyddiau hyn eu paratoi ymlaen llaw i'r arholwr ymweld.

Bydd ymgeiswyr yn gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill a gyflwynwyd ar gyfer y perfformiad Uned 4, yn ddelfrydol drannoeth y perfformiad, neu mor agos ag sy'n bosibl. Bydd hyn yn digwydd o dan amodau arholiad, gan bara am un awr.

Rhaid i ganolfannau wneud recordiad fideo o asesiad Uned 4 a'i anfon ynghyd â gwerthusiadau'r ymgeiswyr o'r perfformiad ddim mwy na **7 niwrnod gwaith** ar ôl yr arholiad.

Bydd yr ymweliadau'n digwydd rhwng mis Mawrth a mis Mai.

3.2 Amcanion Asesu

Bydd gofyn i'r ymgeiswyr ddangos eu gallu i:

- AA1** cofio, dethol, defnyddio a chyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r celfyddydau perfformio i gynhyrchu, archwilio a datblygu syniadau;
- AA2** cymhwyso sgiliau ymarferol i gyfathrebu mewn perfformiad;
- AA3** dangos dealltwriaeth gyd-destunol o'r berthynas rhwng eu gwaith nhw a'r rhai sydd yn y diwydiant celfyddydau perfformio;
- AA4** dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill gan ddefnyddio terminoleg briodol.

Mae pwysoli'r amcanion asesu ar draws unedau'r arholiad fel a ganlyn:

	AA1	AA2	AA3	AA4	Cyfanswm
Uned 1: Asesiad dan Reolaeth	20% (10%)	15% (7.5%)	15% (7.5%)	10%(5%)	60% (30%)
Uned 2 :Perfformiad Arddangos â Thema Iddo		30% (15%)		10%(5%)	40% (20%)
Uned 3: Asesiad dan Reolaeth (Dwyradd)	7.5%	7.5%	7.5%	7.5%	30%
Uned 4: Perfformiad wedi'i Gomisiynu (Dwyradd)		15%		5%	20%
Cyfanswm Pwysoli					
Gradd Unigol Dwyradd	20% 17.5%	45% 45%	15% 15%	20% 22.5%	100% 100%

Mae'r rhifau mewn cromfachau'n cyfeirio at bwysoli'r Dyfarniad Dwyradd.

4

DYFARNU, ADRODD AC AILSEFYLL

Gellir ennill y cymhwyster TGAU mewn Celfyddydau Perfformio fel Gradd Unigol neu Ddwyradd.

Adroddir cymwysterau TGAU Gradd Unigol ar raddfa wyth bwynt o A* i G, lle mai A* yw'r radd uchaf. Adroddir cymwysterau TGAU Dwyradd ar raddfa bymtheg pwynt (A*A*, A*A, AA etc - GG) lle mai A*A* yw'r radd uchaf. Cofnodir cyrhaeddiad ymgeiswyr nad ydynt yn llwyddo i gyrraedd y safon isaf bosibl i ennill gradd fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) gyda'r cyfatebiaethau graddau canlynol:

GRADD	UCHAF.	A*	A	B	C	D	E	F	G
Uned 1	120	108	96	84	72	60	48	36	24
Uned 2	80	72	64	56	48	40	32	24	16
Uned 3	120	108	96	84	72	60	48	36	24
Uned 4	80	72	64	56	48	40	32	24	16
CYMHWYSTER									
DYFARNIAD GRADD UNIGOL	200	180	160	140	120	100	80	60	40

CYMHWYSTER – DYFARNIAD DWYRADD Uchafswm Marciau 400

A*A*	A*A	AA	AB	BB	BC	CC	CD	DD	DE	EE	EF	FF	FG	GG
360	340	320	300	280	260	240	220	200	180	160	140	120	100	80

Manyleb ag unedau yw hon, fodd bynnag, rhaid i leiafswm o 40% o'r asesiad cyffredinol gael ei gymryd ar ddiwedd y cwrs. Mae hyn yn golygu felly bod rhaid i o leiaf un o'r ddwy uned ar gyfer dyfarniad gradd unigol a dwy o'r pedair uned ar gyfer dyfarniad dwyradd gael eu cymryd fel 'asesiad terfynol'. Caiff canolfannau benderfynu pa uned(au) a ddefnyddir i ateb y rheol hon; gellir gwneud yr asesu i gyd ar ddiwedd y cwrs os dymunir gwneud hynny.

Unwaith yn unig y gellir ailsefyll unedau (gyda'r canlyniad gorau'n cyfrif) cyn agredu ar gyfer y dyfarniad pwnc. Hyd oes y fanyleb ei hun yn unig sy'n cyfyngu ar hyd oes y manylebau.

5

GWEINYDDU'R ASESIAD DAN REOLAETH

Mae manyleb TGAU Gradd Unigol a Dwyrradd CBAC mewn Celfyddydau Perfformio yn ateb pob un o'r rheoliadau ar gyfer asesiadau dan reolaeth fel y'u pennwyd gan yr awdurdodau rheoleiddio.

5.1 Rhesymwaith ar gyfer yr Asesiad dan Reolaeth

Mae'r asesiad dan reolaeth yn gydran orfodol o'r TGAU Gradd Unigol a Dwyrradd mewn Celfyddydau Perfformio. Mae'n ategu'r arholiad allanol drwy gynnig dull gwahanol o asesu. Mae'n bwysig am nifer o resymau.

Mae'n galluogi'r ymgeiswyr i:

- wneud gwaith creadigol yn eu hamser eu hunain;
- diwygio a mireinio eu gwaith;
- gwneud ymchwil a chydweithio ag eraill;
- ymwneud â gwneud penderfyniadau pwysig a datrys problemau.

5.2 Lefelau Rheolaeth

Mae rheoliad yr asesiad dan reolaeth yn y TGAU Gradd Unigol a Dwyrradd mewn Celfyddydau Perfformio wedi'i rannu'n dri cham:

- gosod y dasg
- gwneud y dasg
- marcio'r dasg

Ar gyfer pob cam, mae'r awdurdodau rheoleiddio wedi nodi lefel benodol o reolaeth i sicrhau bod amodau gosod, gwneud a marcio'r tasgau'n gadarn ac yn gyson rhwng y canolfannau a'r Cyrff Dyfarnu. Bydd y rheolaethau hyn yn sicrhau bod yr asesiad yn ddilys, yn ddibynadwy ac wedi'i ddilysu â lefel uchel o hyder.

5.3 Uned 1: Archwilio'r Celfyddydau Perfformio a'r Diwydiant Celfyddydau Perfformio (60% Gradd Unigol, 30% Dwyrradd)

Rhaid i'r ymgeiswyr wneud **tair** tasg asesu fel yr amlinellir isod.

5.3.1 Tasg Un: Datblygu Sgiliau'r Celfyddydau Perfformio (30% gradd unigol, 15% dwyrradd)

Mae'r dasg hon yn asesu'r Amcanion Asesu canlynol (mae'r ffigurau mewn cromfachau'n cyfeirio at y dyfarniad dwyrradd):

AA1	cofio, dethol, defnyddio a chyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r celfyddydau perfformio i gynhyrchu, archwilio a datblygu syniadau;	5% (2.5%)
AA2	cymhwyso sgiliau ymarferol i gyfathrebu mewn perfformiad;	15% (7.5%)
AA4	dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill gan ddefnyddio terminoleg briodol.	10% (5%)

GOSOD Y DASG

Bwriad y dasg hon yw cynorthwyo'r ymgeiswyr i ddatblygu un sgil celfyddydau perfformio o'r rhestr ar dudalen 6.

Disgwylir i'r ymgeiswyr wneud archwiliad sgiliau cychwynnol a chreu log gwella, gan amlinellu sut byddant yn mynd ati i wella mewn **un** sgil celfyddydau perfformio. Dylai'r ganolfan wneud recordiad (fideo neu sain) o berfformiad byr sy'n dangos un o'r sgiliau ymarferol a ddatblygwyd. Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr ysgrifennu gwerthusiad o'r modd y mae eu sgil wedi datblygu, gan ddadansoddi sut mae perfformiwr/technegydd arall wedi dylanwadu ar eu gwaith. (Gweler tudalen 6 i gael rhagor o arweiniad).

GWNEUD Y DASG

- **Rheoli'r dilysrwydd**

Caiff yr ymgeiswyr ymarfer ac arsylwi eraill yn y sgiliau celfyddydau perfformio o'u dewis yn eu hamser eu hunain, y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, rhaid i'r gwaith hwn sydd ar y gweill gael ei ddangos i'r athro'n gyson yn ystod y broses. Rhaid i gwblhau'r archwiliad cychwynnol a'r log gwella, recordio'r perfformiad a'r adroddiad hunanwerthuso/hunanddadansoddi ddigwydd yn yr ystafell ddosbarth, o dan oruchwyliaeth ffurfiol yr athro/athrawes a all ddilysu'r gwaith.

- **Rheoli'r adborth**

Rhaid i'r athro/athrawes weld y gwaith ymarfer sydd ar y gweill o leiaf **ddwywaith** a dim mwy na **phedair** gwaith yn ystod y broses. Gall athrawon awgrymu gwelliannau i'r gwaith yn gyffredinol i'r ymgeiswyr. Yn ystod goruchwyliaeth ffurfiol y tasgau ysgrifenedig (archwiliad, log gwella, recordio a'r hunanwerthuso/hunanddadansoddiad), caiff yr athro/athrawes roi arweiniad **cyfyngedig** yn ystod y dasg er mwyn egluro beth sydd i'w wneud ac i sicrhau bod arferion gwaith diogel yn cael eu dilyn. **Rhaid** i'r athro/athrawes **beidio** â rhoi cyngor penodol i'r ymgeiswyr ar gynnwys y gwaith.

- **Rheoli'r amser**

Uchafswm yr amser a neilltuir i'r dasg hon yw **6** awr. Dylid cymryd hyn dros gyfres o wersi. Nid yw hyn yn cymryd yr amser addysgu a dysgu a'r amser ymarfer y tu allan i'r ystafell ddosbarth i ystyriaeth.

- **Rheoli'r cydweithio**

Caiff gwaith yr unigolyn ei hysbysu drwy weithio gydag eraill ond gwaith yr unigolyn a gaiff ei asesu.

- **Rheoli'r adnoddau**

Mae'r adnoddau sydd ar gael i'r ymgeiswyr yn dibynnu ar y rhai sydd ar gael i'r ganolfan a gall gynnwys defnyddio'r rhyngwyd, llyfrau, perfformiadau theatraidd byw, perfformiadau wedi'u recordio (sain neu fideo) ac ati.

MARCIO'R DASG

Diffinnir Marcio'r Dasg fel bod iddi lefel ganolig o reolaeth.

- Mae athrawon yn marcio'r dasg gan ddefnyddio'r meini prawf marcio ar dudalen 21.

- Mae'r corff dyfarnu'n safoni'r marciau'n allanol gan ddefnyddio sampl trefn restrol, sy'n gyson â gofynion y Cod Ymarfer.

Cyfarwyddiadau i athrawon o ran asesu Tasg dan Reolaeth Un yn fewnol

Caiff y dasg hon ei marcio allan o gyfanswm o 60 marc.

Bydd y dasg wedi'i hasesu gan yr athro ac wedi'i safoni'n allanol.

Dylid dilyn y meini prawf ar y dudalen ganlynol.

Meini Prawf Asesu Uned 1
Tasg Un: Datblygu Sgiliau'r Celfyddydau Perfformio (30%)

Ystod Marciau	AA1 (5%)	Ystod Marciau	AA2 (15%)	Ystod Marciau	AA4 (10%)
0	Dim ymateb.	0	Dim ymateb.	0	Dim ymateb.
1-2	Manylion cyfyngedig wedi'u cynnwys yn y log gwella. Prin iawn yw'r gwaith o ran nodi'r cryfderau presennol, gydag ychydig iawn o fanylion am feysydd dilys i'w datblygu.	1-6	Datblygiad sgiliau cyfyngedig wedi'i nodi yn yr archwiliad cychwynnol. Prin iawn yw'r sgiliau i'w haddasu/mabwysiadu a nodir wrth ymchwilio i berfformiadau/technegwyr.	1-4	Dadansoddiad a gwerthusiad cyfyngedig o'r sgiliau a ddatblygwyd. Bydd y gwerthusiad yn dangos ymchwilio a dadansoddi prin iawn ar berfformiwr/technegydd a sut mae'r sgiliau a arsylwyd wedi'u mabwysiadu/haddasu. Ychydig iawn o agweddau cadarnhaol a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach a nodir. Mae gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu'n debygol o lesteirio'r cyfathrebu ar adegau. Defnydd cyfyngedig o derminoleg y celfyddydau perfformio.
3-4	Manylion sylfaenol wedi'u cynnwys yn y log gwella. Gwaith sylfaenol o ran nodi'r cryfderau presennol, gyda pheth manylion am feysydd dilys i'w datblygu.	7-12	Datblygiad sgiliau sylfaenol wedi'i nodi yn yr archwiliad cychwynnol. Ychydig o sgiliau i'w haddasu/mabwysiadu wedi'u nodi yn yr ymchwil i berfformiadau/technegwyr.	5-8	Dadansoddiad a gwerthusiad sylfaenol o'r sgiliau a ddatblygwyd. Bydd y gwerthusiad yn dangos ychydig o ymchwilio a dadansoddi perfformiwr/technegydd a sut mae'r sgiliau a arsylwyd wedi'u mabwysiadu/haddasu. Nodir yn sylfaenol agweddau cadarnhaol a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach. Gall y mynegiant fod yn lletchwith a bydd gwallau sillafu, gramadeg ac atalnodi'n amlwg. Defnydd sylfaenol o derminoleg y celfyddydau perfformio.
5-6	Manylion boddhaol wedi'u cynnwys yn y log gwella. Gwaith digonol o ran nodi'r cryfderau presennol, gyda manylion rhesymol am feysydd dilys i'w datblygu.	13-18	Datblygiad sgiliau boddhaol wedi'i nodi yn yr archwiliad cychwynnol. Tystiolaeth ddigonol o addasu/mabwysiadu sgiliau wedi'u nodi yn yr ymchwil i berfformiadau/technegwyr.	9-12	Dadansoddiad a gwerthusiad boddhaol o'r sgiliau a ddatblygwyd. Bydd y gwerthusiad yn dangos peth manylder wrth ymchwilio a dadansoddi perfformiwr/technegydd a sut mae'r sgiliau a arsylwyd wedi'u mabwysiadu/haddasu. Nodir yn foddhaol agweddau cadarnhaol a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach. Bydd y mynegiant yn eglur ar y cyfan, er y bydd gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg. Defnydd boddhaol o derminoleg y celfyddydau perfformio.
7-8	Manylion da wedi'u cynnwys yn y log gwella. Gwaith manwl o ran nodi'r cryfderau presennol, gyda manylion da am feysydd dilys i'w datblygu.	19-24	Datblygiad sgiliau da wedi'i nodi yn yr archwiliad cychwynnol. Tystiolaeth eglur, gyson o addasu/mabwysiadu sgiliau wedi'u nodi yn yr ymchwil i berfformiadau/technegwyr.	13-16	Dadansoddiad a gwerthusiad da o'r sgiliau a ddatblygwyd. Bydd y gwerthusiad yn dangos manylder wrth ymchwilio a dadansoddi perfformiwr/technegydd a sut mae'r sgiliau a arsylwyd wedi'u mabwysiadu/haddasu. Nodir yn dda agweddau cadarnhaol a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach. Bydd y mynegiant yn eglur a rhugl gan fwyaf. Gall fod rhai gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg. Defnydd da o derminoleg dechnegol.
9-10	Log gwella ardderchog a chynhwysfawr iawn wedi'i gwblhau. Gwaith manwl iawn o ran nodi'r cryfderau presennol, gyda manylion ardderchog am feysydd dilys i'w datblygu.	25-30	Sgiliau ardderchog wedi'u datblygu'n rhagorol wedi'u nodi yn yr archwiliad cychwynnol. Addasu/mabwysiadu sgiliau wedi'u datblygu'n rhagorol wedi'u nodi yn yr ymchwil i berfformiadau/technegwyr.	17-20	Dadansoddiad a gwerthusiad ardderchog o'r sgiliau a ddatblygwyd. Bydd y gwerthusiad yn dangos manylder mawr wrth ymchwilio a dadansoddi perfformiwr/technegydd a sut mae'r sgiliau a arsylwyd wedi'u mabwysiadu/haddasu. Nodir yn ardderchog agweddau cadarnhaol a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach. Bydd y mynegiant yn eglur ac yn rhugl. Prin iawn fydd y gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu. Defnydd ardderchog o derminoleg dechnegol.

5.3.2 Tasg Dau: Gwybodaeth am y Diwydiant Celfyddydau Perfformio (15% gradd unigol, 7.5% dwyradd)

Mae'r dasg hon yn asesu'r Amcanion Asesu canlynol (mae'r ffigurau mewn cromfachau'n cyfeirio at y dyfarniad dwyradd):

AA1	cofio, dethol, defnyddio a chyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r celfyddydau perfformio i gynhyrchu, archwilio a datblygu syniadau;	5% (2.5%)
AA3	dangos dealltwriaeth gyd-destunol o'r berthynas rhwng eu gwaith nhw a'r rhai sydd yn y diwydiant celfyddydau perfformio.	10% (5%)

GOSOD Y DASG

Bwriad y dasg hon yw galluogi'r ymgeiswyr i ddeall agweddau ymarferol ar y Diwydiant Celfyddydau Perfformio

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr wneud ymchwil ar ddwy rôl sy'n berthnasol i'r gwaith yn y diwydiant celfyddydau perfformio. Dylai'r ddwy rôl fod o **ddau sgil celfyddydau perfformio gwahanol** fel yr amlinellwyd ar dudalen 6

Bydd yr ymgeiswyr yn ysgrifennu adroddiad (uchafswm o 1,500 gair) yn amlinellu'r cymwysterau allweddol, y sgiliau proffesiynol, y sgiliau personol, a'r cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pob rôl. Yn ogystal, dylai'r ymgeiswyr gynnwys manylion eu haddasrwydd eu hunain ar gyfer un o'r rolau hyn.

GWNEUD Y DASG

- Rheoli'r dilysrwydd**
 Gall yr ymgeiswyr wneud ymchwil i'r rolau sy'n berthnasol i waith y celfyddydau perfformio ar gyfer y dasg yn eu hamser eu hunain, y tu allan i'r dosbarth. Fodd bynnag, rhaid dangos y gwaith hwn i'r athro a rhaid ei gyflwyno ynghyd â'r adroddiad ysgrifenedig. Rhaid i'r adroddiad ysgrifenedig gael ei gwblhau yn yr ystafell ddosbarth, o dan oruchwyliaeth ffurfiol yr athro/athrawes a all ddilysu'r gwaith.
- Rheoli'r adborth**
 Rhaid i'r athro/athrawes weld y gwaith ymchwil sydd ar y gweill gan yr ymgeisydd o leiaf **ddwywaith** a dim mwy na **phedair** gwaith yn ystod y broses. Caiff athrawon awgrymu gwelliannau i'r gwaith yn gyffredinol i'r ymgeiswyr. Yn ystod y goruchwyllo ffurfiol ar yr adroddiad ysgrifenedig, gall yr athro roi cyfarwyddyd **cyfyngedig** yn ystod y dasg er mwyn egluro beth sydd i'w wneud. **Rhaid** i'r athro/athrawes **beidio** â rhoi cyngor penodol i'r ymgeiswyr ar gynnwys y gwaith.
- Rheoli'r amser**
Uchafswm yr amser a neilltuir i'r dasg hon yw **3 awr**. Dylid cymryd hyn dros gyfres o wersi. Nid yw hyn yn cyfrif yr amser ar gyfer ymchwil unigol a'r addysgu a'r dysgu.
- Rheoli'r cydweithio**
 Caiff gwaith yr unigolyn ei hysbysu drwy weithio gydag eraill ond gwaith yr unigolyn a gaiff ei asesu.

- **Rheoli'r adnoddau**

Mae'r adnoddau sydd ar gael i'r ymgeiswyr yn dibynnu ar y rhai sydd ar gael i'r ganolfan a gall gynnwys defnyddio'r rhyngrwyd, llyfrau, perfformiadau theatraidd byw, perfformiadau wedi'u recordio (sain neu fideo) ac ati.

MARCIO'R DASG

Diffinnir Marcio'r Dasg fel bod iddi lefel ganolig o reolaeth.

- Mae'r athrawon yn marcio'r dasg gan ddefnyddio'r meini prawf marcio isod.
- Mae'r corff dyfarnu'n safoni'r marciau'n allanol gan ddefnyddio sampl trefn restrol, sy'n gyson â gofynion y Cod Ymarfer.

Cyfarwyddiadau i athrawon o ran asesu Tasg dan Reolaeth Dau yn fewnol

Caiff y dasg hon ei marcio allan o gyfanswm o 30 marc.

Bydd y dasg wedi'i hasesu gan yr athro ac wedi'i safoni'n allanol.

Dylid dilyn y meini prawf canlynol.

**Meini Prawf Asesu Uned 1
Tasg Dau: Gwybodaeth o'r Diwydiant Celfyddydau Perfformio (15%)**

Ystod Marciau	AA1 (5)%	Ystod Marciau	AO3 (10%)
0	Dim ymateb.	0	Dim ymateb.
1-2	Syniadau cyfyngedig wedi'u cyflwyno ar addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer un o'r rolau.	1-4	Ychydig iawn o ymchwil wedi'i wneud i ddwy rôl waith wahanol. Adroddiad cyfyngedig wedi'i gwblhau, yn dangos ychydig iawn o ddealltwriaeth o'r rolau.
3-4	Syniadau sylfaenol wedi'u cyflwyno ar addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer un o'r rolau.	5-8	Ychydig o ymchwil wedi'i wneud i ddwy rôl waith wahanol. Adroddiad sylfaenol wedi'i gwblhau, yn dangos ychydig o ddealltwriaeth o'r rolau.
5-6	Syniadau boddhaol wedi'u cyflwyno ar addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer un o'r rolau.	9-12	Ymchwil digonol wedi'i wneud i ddwy rôl waith wahanol. Adroddiad boddhaol wedi'i gwblhau, yn dangos peth dealltwriaeth o'r rolau.
7-8	Syniadau da wedi'u cyflwyno ar addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer un o'r rolau.	13-16	Ymchwil manwl wedi'i wneud i ddwy rôl waith wahanol. Adroddiad da wedi'i gwblhau, yn dangos dealltwriaeth fanwl o'r rolau.
9-10	Syniadau ardderchog wedi'u cyflwyno ar addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer un o'r rolau.	17-20	Ymchwil manwl iawn wedi'i wneud i ddwy rôl waith wahanol. Adroddiad ardderchog, aeddfed wedi'i gwblhau, gan ddangos dealltwriaeth fanwl iawn o'r rolau.

5.3.3 Tasg Tri: Paratoi am Berfformiad (15% gradd unigol, 7.5% dwyradd)

Mae'r dasg hon yn asesu'r Amcanion Asesu canlynol (mae'r ffigurau mewn cromfachau'n cyfeirio at y dyfarniad dwyradd):

AA1	cofio, dethol, defnyddio a chyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r celfyddydau perfformio i gynhyrchu, archwilio a datblygu syniadau;	10% (5%)
AA3	dangos dealltwriaeth gyd-destunol o'r berthynas rhwng eu gwaith nhw a'r rhai sydd yn y diwydiant celfyddydau perfformio.	5% (2.5%)

GOSOD Y DASG

Bwriad y dasg hon yw helpu'r ymgeiswyr i baratoi at berfformiad.

Disgwylir i ymgeiswyr gynhyrchu deunyddiau i baratoi am Berfformiad Arddangos â Thema Iddo (Uned 2) Byddant yn cynhyrchu adroddiad (uchafswm 1,500 gair) yn rhoi rhesymwaith dros eu lleoliad delfrydol i'r perfformiad (nid oes rhaid mai hwn yw'r **union** lleoliad lle mae'r perfformiad yn digwydd), costau, goblygiadau iechyd a diogelwch ar gyfer eu rôl **unigol**, a manylion ar ddeunydd addas i'w gynnwys yn y perfformiad ar gyfer eu sgîl perfformio unigol eu hunain ac o leiaf **un** sgîl perfformio arall a amlinellir ar dudalen 6.

- **Rheoli'r dilysrwydd**

Gall yr ymgeiswyr wneud ymchwil ar y lleoliad, costau, materion iechyd a diogelwch a syniadau perfformio'n seiliedig ar y thema. Fodd bynnag, rhaid dangos y gwaith hwn i'r athro a rhaid ei gyflwyno ynghyd â'r adroddiad ysgrifenedig. Rhaid i'r adroddiad ysgrifenedig gael ei gwblhau yn yr ystafell ddosbarth, o dan oruchwyliaeth ffurfiol yr athro/athrawes a all ddilysu'r gwaith.

- **Rheoli'r adborth**

Rhaid i'r athro/athrawes weld y gwaith ymchwil sydd ar y gweill gan yr ymgeisydd o leiaf **ddwywaith** a dim mwy na **phedair** gwaith yn ystod y broses. Gall athrawon awgrymu gwelliannau i'r gwaith yn gyffredinol i'r ymgeiswyr. Yn ystod y goruchwyllo ffurfiol ar yr adroddiad ysgrifenedig, gall yr athro roi cyfarwyddyd **cyfyngedig** yn ystod y dasg er mwyn egluro beth sydd i'w wneud. **Rhaid** i'r athro/athrawes **beidio** â rhoi cyngor penodol i'r ymgeiswyr ar gynnwys y gwaith.

- **Rheoli'r amser**

Uchafswm yr amser a neilltuir i'r dasg hon yw **4 awr**. Dylid cymryd hyn dros gyfres o wersi. Nid yw hyn yn cyfrif yr amser ar gyfer ymchwil unigol a'r addysgu a'r dysgu.

- **Rheoli'r cydweithio**

Caiff gwaith yr unigolyn ei hysbysu drwy weithio gydag eraill ond gwaith yr unigolyn a gaiff ei asesu.

- **Rheoli'r adnoddau**

Mae'r adnoddau sydd ar gael i'r ymgeiswyr yn dibynnu ar y rhai sydd ar gael i'r ganolfan a gall gynnwys defnyddio'r rhyngrwyd, llyfrau, perfformiadau theatraidd byw, perfformiadau wedi'u recordio (sain neu fideo) ac ati.

MARCIO'R DASG

Diffinnir Marcio'r Dasg fel bod iddi lefel ganolig o reolaeth.

- Mae'r athrawon yn marcio'r dasg gan ddefnyddio'r meini prawf marcio isod.
- Mae'r corff dyfarnu'n safoni'r marciau'n allanol gan ddefnyddio sampl trefn restrol, sy'n gyson â gofynion y Cod Ymarfer.

Cyfarwyddiadau i athrawon o ran asesu Tasg dan Reolaeth Tri yn fewnol

Caiff y dasg hon ei marcio allan o gyfanswm o 30 marc.

Bydd y dasg wedi'i hasesu gan yr athro ac wedi'i safoni'n allanol.

Dylid dilyn y meini prawf canlynol.

Meini Prawf Asesu Uned 1 Tasg Tri: Paratoi am Berfformiad (15%)

Ystod Marciau	AA1 (10%)	Ystod Marciau	AA3 (5%)
0	Dim ymateb.	0	Dim ymateb.
1-4	Syniadau syml wedi'u cyflwyno ar gyfer eu gwaith eu hunain a gwaith eraill i'w gynnwys yn y perfformiad, gan ddangos peth cysondeb o fewn y dehongliad o'r thema.	1-2	Rhesymwaith cyfyngedig wedi'i gyflwyno ar y lleoliad a ddewiswyd ac ychydig iawn o fanylion wedi'u cynnwys am gostau a goblygiadau iechyd a diogelwch ar gyfer rôl yr unigolyn.
5-8	Ychydig o syniadau creadigol wedi'u cyflwyno ar gyfer eu gwaith eu hunain a gwaith eraill i'w gynnwys yn y perfformiad, gan ddangos dehongliad cyson o'r thema.	3-4	Rhesymwaith sylfaenol wedi'i gyflwyno ar y lleoliad a ddewiswyd ac ychydig o fanylion wedi'u cynnwys am gostau a goblygiadau iechyd a diogelwch ar gyfer rôl yr unigolyn.
9-12	Rhai syniadau creadigol wedi'u cyflwyno ar gyfer eu gwaith eu hunain a gwaith eraill i'w gynnwys yn y perfformiad, gan ddangos peth gwreiddioldeb o ran dehongli'r thema.	5-6	Rhesymwaith boddhaol wedi'i gyflwyno ar y lleoliad a ddewiswyd a rhai manylion wedi'u cynnwys am gostau a goblygiadau iechyd a diogelwch ar gyfer rôl yr unigolyn.
13-16	Syniadau eithaf creadigol wedi'u cyflwyno ar gyfer eu gwaith eu hunain a gwaith eraill i'w gynnwys yn y perfformiad, gan ddangos dehongliad gwreiddiol o'r thema.	7-8	Rhesymwaith da wedi'i gyflwyno ar y lleoliad a ddewiswyd a llawer o fanylion wedi'u cynnwys am gostau a goblygiadau iechyd a diogelwch ar gyfer rôl yr unigolyn.
17-20	Syniadau ysbrydoledig a chreadigol wedi'u cyflwyno ar gyfer eu gwaith eu hunain a gwaith eraill i'w gynnwys yn y perfformiad, gan ddangos dehongliad cyson o'r thema.	9-10	Rhesymwaith ardderchog wedi'i gyflwyno ar y lleoliad a ddewiswyd a llawer iawn o fanylion wedi'u cynnwys am gostau a goblygiadau iechyd a diogelwch ar gyfer rôl yr ymgeisydd unigol.

Safoni'r Asesiad dan Reolaeth yn Fewnol

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod safoni gofalus yn digwydd lle mae mwy nag un athro'n gyfrifol am farcio'r Asesiad dan Reolaeth. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cysondeb safonau o fewn canolfan. Lle mae angen safoni mewnlol, dylai'r athro sy'n cymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros y broses hon ddarparu amlinelliad ysgrifenedig o'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer y safonwr allanol. Dylid adio'r marciau am bob tasg dan reolaeth at ei gilydd i greu cyfanswm allan o 120.

Dilysu Asesiadau dan Reolaeth

Mae gofyn i ymgeiswyr lofnodi mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith a gyflwynwyd ac mae gofyn i athrawon/aseswyr gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd o dan sylw'n unig yw'r gwaith a asesir ac iddo gael ei wneud o dan yr amodau gofynnol. Mae copi o'r ffurflen ddilysu, sy'n rhan o'r daflen glawr i waith pob ymgeisydd ar gael ar y wefan. Dylai athrawon ddilysu'r gwaith ar yr un ffurflen. Mae'n bwysig nodi bod angen i **bob** ymgeisydd lofnodi'r ffurflenni hyn, ac nid yn unig y rhai hynny y mae eu gwaith yn rhan o'r sampl i'w gyflwyno i'r safonwr. Nid oes angen rhoi gwybod i CBAC am gamymddwyn a ganfuwyd cyn i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysrwydd ond rhaid ymdrin â hyn yn unol â gweithdrefnau mewnlol y ganolfan.

Cyn iddynt ymgymryd ag unrhyw waith yn ymwneud â'r Asesiad dan Reolaeth, dylid tynnu sylw'r ymgeiswyr at Hysbysiad i Ymgeiswyr perthnasol y CGC. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.icq.org.uk) ac yn rhan o'r *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Gwaith Cwrs/Portffolios*. Caiff mwy o arweiniad ar atal llên-ladrad ei roi yn y ddogfen *Plagiarism in Examinations: Guidance for Teachers/Assessors* sydd ar gael hefyd ar wefan y CGC.

Safoni'r Asesiad dan Reolaeth yn Allanol

Safonir asesiad yr athro drwy archwilio'r Asesiad dan Reolaeth gan CBAC. Caiff canolfannau wybod am y dyddiad cyflwyno ar gyfer y tasgau asesiad dan Reolaeth yn yr Amserlen Arholiadau a gyhoeddwyd a chyhoeddir enw eu safonwr yn ystod tymor y gwanwyn cyn yr achredu.

Ar gyfer Uned 1, rhaid i ganolfannau gyflwyno sampl o waith yr ymgeiswyr, wedi'i seilio ar y **cyfanswm** (uchafswm 120) a roddwyd am bob un o'r tair tasg dan reolaeth.

Mae *Llawlyfr Asesu Mewnol* CBAC yn rhoi cyfarwyddiadau am ddethol a danfon samplau o waith at y safonwr.

O ganlyniad i'r safoni, efallai y caiff marciau'r ymgeiswyr eu haddasu fel bod marciau'r ganolfan yn unol â'r safon genedlaethol. Os bydd gofyn gwneud hynny, bydd y safonwr yn gofyn am samplau ychwanegol o waith ac os bydd angen, efallai gofynnir am waith yr ymgeiswyr i gyd i'w safoni'n allanol faint bynnag o ymgeiswyr a gofrestrwyd. Yn yr achos hwn, anfonir y gwaith i gyd at y safonwr.

Os bydd unrhyw bryder ynghylch y gweithdrefnau dyfarnu, bydd y broses apelio arferol yn berthnasol.

Os rhoddyd unrhyw gymorth i ymgeisydd penodol sydd y tu hwnt i'r hyn a roddwyd i'r grŵp addysgu'n gyffredinol, dylid nodi'r manylion yn llawn ar daflen ar wahân. Dylid ei ystyried wedyn wrth asesu'r Asesiad dan Reolaeth.

Cofnodi Marciau'r Asesiad dan Reolaeth

- (1) Defnyddir taflenni marciau ymgeiswyr unigol i gofnodi marciau ar gyfer y tasgau dan reolaeth unigol i'w hanfon at y safonwr. Rhaid i'r canolfannau gadw copiâu o'r taflenni marciau a anfonwyd at y safonwr.
- (2) Caiff y marciau eu cofnodi hefyd ar system ar-lein CBAC.

Cyflwyno'r Asesiad dan Reolaeth

Cyflwynir y canlynol:

- y tair tasg dan reolaeth ar gyfer pob ymgeisydd yn y sampl **heb unrhyw atodiadau eraill heblaw am y nodiadau ymchwil a nodwyd yn y tasgau;**
- taflenni marciau ymgeiswyr unigol wedi'u llenwi gan yr athro ar gyfer pob ymgeisydd yn y sampl gyda'r datganiadau wedi'u llofnodi gan yr ymgeisydd a'r athro;

Dychwelyd yr Asesiad dan Reolaeth

Dychwelir y gwaith gan y safonwr pan fydd y broses safoni wedi'i chwblhau. Anfonir sampl o waith at y Prif Safonwr a gellir ei gadw i'w ddefnyddio adeg Dyfarnu neu DPP neu fel deunydd enghreifftiol.

Cadw'r Asesiad dan Reolaeth

Mae angen i'r canolfannau gadw'r Asesiadau dan Reolaeth tan ddiwedd mis Tachwedd yn dilyn Arholiad yr Haf.

5.4 Uned 3: Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Celfyddydau Perfformio a Diwydiant y Celfyddydau Perfformio (30% Dwyrradd)

Rhaid i'r ymgeiswyr wneud **tair** tasg asesiad dan reolaeth fel yr amlinellir isod.

5.4.1 Tasg Un: Datblygu Sgiliau Celfyddydau Perfformio Newydd (15%)

Mae'r dasg hon yn asesu'r Amcanion Asesu canlynol:

AA1	cofio, dethol, defnyddio a chyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r celfyddydau perfformio i gynhyrchu, archwilio a datblygu syniadau;	2.5%
AA2	cymhwyso sgiliau ymarferol i gyfathrebu mewn perfformiad;	7.5%
AA4	dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill gan ddefnyddio terminoleg briodol.	5%

GOSOD Y DASG

Bwriad y dasg hon yw cynorthwyo'r ymgeiswyr i ddatblygu **un** sgil celfyddydau perfformio **newydd** o'r rhestr ar dudalen 6. **Rhaid** i'r sgil hwn fod yn wahanol i'r sgil a gyflwynwyd yn Uned 1.

Disgwylir i'r ymgeiswyr wneud archwiliad sgiliau cychwynnol a chreu log gwella, gan amlinellu sut byddant yn mynd ati i wella yn y sgil celfyddydau perfformio **newydd**. Dylai'r ganolfan wneud recordiad (fideo neu sain) o berfformiad byr sy'n dangos un o'r sgiliau ymarferol a ddatblygwyd. Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr ysgrifennu gwerthusiad o'r modd y mae eu sgil wedi datblygu, gan ddadansoddi sut mae perfformiwr/technegydd arall wedi dylanwadu ar eu gwaith. (Gweler tudalen 9 i gael rhagor o arweiniad).

GWNEUD Y DASG

- **Rheoli'r dilysrwydd**

Caiff yr ymgeiswyr ymarfer ac arsylwi eraill yn y sgiliau celfyddydau perfformio a ddewiswyd ganddynt yn eu hamser eu hunain, y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, rhaid i'r gwaith hwn sydd ar y gweill gael ei ddangos i'r athro'n gyson yn ystod y broses. Rhaid i gwblhau'r archwiliad cychwynnol a'r log gwella, recordio'r perfformiad a'r adroddiad hunanwerthuso/hunanddadansoddi ddigwydd yn yr ystafell ddosbarth, o dan oruchwyliaeth ffurfiol yr athro/athrawes a all ddilysu'r gwaith.

- **Rheoli'r adborth**

Rhaid i'r athro/athrawes weld y gwaith ymarfer yn mynd rhagddo o leiaf **ddwywaith** a dim mwy na **phedair** gwaith yn ystod y broses. Caiff athrawon awgrymu gwelliannau i'r gwaith yn gyffredinol i'r ymgeiswyr. Yn ystod goruchwyliaeth ffurfiol y tasgau ysgrifenedig (archwiliad, log gwella, recordio a'r hunanwerthuso/hunanddadansoddiad), caiff yr athro/athrawes roi arweiniad **cyfyngedig** yn ystod y dasg er mwyn egluro beth sydd i'w wneud ac i sicrhau bod arferion gwaith diogel yn cael eu dilyn. **Rhaid** i'r athro/athrawes **beidio** â rhoi cyngor penodol i'r ymgeiswyr ar gynnwys y gwaith.

- **Rheoli'r amser**

Uchafswm yr amser a neilltuir i'r dasg hon yw **6 awr**. Dylid cymryd hyn dros gyfres o wersi. Nid yw hyn yn cymryd yr amser addysgu a dysgu a'r amser ymarfer y tu allan i'r ystafell ddosbarth i ystyriaeth.

- **Rheoli'r cydweithio**

Caiff gwaith yr unigolyn ei hysbysu drwy weithio gydag eraill ond gwaith yr unigolyn a gaiff ei asesu.

- **Rheoli'r adnoddau**

Mae'r adnoddau sydd ar gael i'r ymgeiswyr yn dibynnu ar y rhai sydd ar gael i'r ganolfan a gall gynnwys defnyddio'r rhyngwrwyd, llyfrau, perfformiadau theatraidd byw, perfformiadau wedi'u recordio (sain neu fideo) ac ati.

MARCIO'R DASG

Diffinnir Marcio'r Dasg fel bod iddi lefel ganolig o reolaeth.

- Mae athrawon yn marcio'r dasg gan ddefnyddio'r meini prawf marcio ar dudalen 30.
- Mae'r corff dyfarnu'n safoni'r marciau'n allanol gan ddefnyddio sampl trefn restrol, sy'n gyson â gofynion y Cod Ymarfer.

Cyfarwyddiadau i athrawon o ran asesu Tasg dan Reolaeth Un yn fewnol

Caiff y dasg hon ei marcio allan o gyfanswm o 60 marc.

Bydd y dasg wedi'i hasesu gan yr athro ac wedi'i safoni'n allanol.

Dylid dilyn y meini prawf ar y tudalennau canlynol.

Amcanion Aseu Uned 3
Tasg Un: Datblygu Sgiliau Celfyddydau Perfformio Newydd (15%)

Ystod Marciau	AA1 (5%)	Ystod Marciau	AA2 (15%)	Ystod Marciau	AA4 (10%)
0	Dim ymateb.	0	Dim ymateb.	0	Dim ymateb.
1-2	Manylion cyfyngedig wedi'u cynnwys yn y log gwella. Prin iawn yw'r gwaith o ran nodi'r cryfderau presennol, gydag ychydig iawn o fanylion am feysydd dilys i'w datblygu.	1-6	Datblygiad sgiliau cyfyngedig wedi'i nodi yn yr archwiliad cychwynnol. Prin iawn yw'r sgiliau i'w haddasu/mabwysiadu a nodir wrth ymchwilio i berfformiadau/technegwyr.	1-4	dadansoddiad a gwerthusiad cyfyngedig o'r sgiliau newydd a ddatblygwyd. Bydd y gwerthusiad yn dangos ymchwilio a dadansoddi prin iawn ar berfformiwr/technegydd a sut mae'r sgiliau a arsylwyd wedi'u mabwysiadu/haddasu. Ychydig iawn o agweddau cadarnhaol a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach a nodir. Mae gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu'n debygol o lesteirio'r cyfathrebu ar adegau. Defnydd cyfyngedig o derminoleg y celfyddydau perfformio.
3-4	Manylion sylfaenol wedi'u cynnwys yn y log gwella. Gwaith sylfaenol o ran nodi'r cryfderau presennol, gyda pheth manylion am feysydd dilys i'w datblygu.	7-12	Datblygiad sgiliau cyfyngedig wedi'i nodi yn yr archwiliad cychwynnol. Ychydig o sgiliau i'w haddasu/mabwysiadu wedi'u nodi yn yr ymchwil i berfformiadau/technegwyr.	5-8	Dadansoddiad a gwerthusiad sylfaenol o'r sgiliau newydd a ddatblygwyd. Bydd y gwerthusiad yn dangos ychydig o ymchwilio a dadansoddi perfformiwr/technegydd a sut mae'r sgiliau a arsylwyd wedi'u mabwysiadu/haddasu. Nodir yn sylfaenol agweddau cadarnhaol a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach. Gall y mynegiant fod yn lletchwith a bydd gwallau sillafu, gramadeg ac atalnodi'n amlwg. Defnydd sylfaenol o derminoleg y celfyddydau perfformio.
5-6	Manylion boddhaol wedi'u cynnwys yn y log gwella. Gwaith digonol o ran nodi'r cryfderau presennol, gyda manylion rhesymol am feysydd dilys i'w datblygu.	13-18	Datblygiad sgiliau boddhaol wedi'i nodi yn yr archwiliad cychwynnol. Dangosir tystiolaeth ddigonol o addasu/mabwysiadu sgiliau wedi'u nodi yn yr ymchwil i berfformiadau/technegwyr.	9-12	Dadansoddiad a gwerthusiad boddhaol o'r sgiliau newydd a ddatblygwyd. Bydd y gwerthusiad yn dangos peth manylder wrth ymchwilio a dadansoddi perfformiwr/technegydd a sut mae'r sgiliau a arsylwyd wedi'u mabwysiadu/haddasu. Nodir yn foddhaol agweddau cadarnhaol a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach. Bydd y mynegiant yn eglur ar y cyfan, er y bydd gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg. Defnydd boddhaol o derminoleg y celfyddydau perfformio.
7-8	Manylion da wedi'u cynnwys yn y log gwella. Gwaith manwl o ran nodi'r cryfderau presennol, gyda manylion da am feysydd dilys i'w datblygu.	19-24	Datblygiad sgiliau da wedi'i nodi yn yr archwiliad cychwynnol. Tystiolaeth eglur, gyson o addasu/mabwysiadu sgiliau wedi'u nodi yn yr ymchwil i berfformiadau/technegwyr.	13-16	Dadansoddiad a gwerthusiad da o'r sgiliau newydd a ddatblygwyd. Bydd y gwerthusiad yn dangos manylder wrth ymchwilio a dadansoddi perfformiwr/technegydd a sut mae'r sgiliau a arsylwyd wedi'u mabwysiadu/haddasu. Nodir yn dda agweddau cadarnhaol a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach. Bydd y mynegiant yn eglur a rhugl gan fwyaf. Gall fod rhai gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg. Defnydd da o derminoleg dechnegol.
9-10	Log gwella ardderchog a chynhwysfawr iawn wedi'i ddatblygu. Gwaith manwl iawn o ran nodi'r cryfderau presennol, gyda manylion ardderchog o'r meysydd dilys i'w datblygu.	25-30	Datblygiad sgiliau ardderchog wedi'i nodi yn yr archwiliad cychwynnol. Addasu/mabwysiadu sgiliau wedi'u datblygu rhagorol wedi'u nodi yn yr ymchwil i berfformiadau/technegwyr.	17-20	Dadansoddiad a gwerthusiad ardderchog o'r sgiliau newydd a ddatblygwyd. Bydd y gwerthusiad yn dangos manylder mawr wrth ymchwilio a dadansoddi perfformiwr/technegydd a sut mae'r sgiliau a arsylwyd wedi'u mabwysiadu/haddasu. Nodir yn ardderchog agweddau cadarnhaol a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach. Bydd y mynegiant yn eglur ac yn rhugl. Prin iawn fydd y gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu. Defnydd ardderchog o derminoleg dechnegol.

5.4.2 Tasg Dau: Dysgu Estynedig yn y Celfyddydau Perfformio (7.5%)

Mae'r dasg hon yn asesu'r Amcanion Asesu canlynol:

AA3	dangos dealltwriaeth gyd-destunol o'r berthynas rhwng eu gwaith nhw a'r rhai sydd yn y diwydiant celfyddydau perfformio;	5%
AA4	dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill gan ddefnyddio terminoleg briodol.	2.5%

GOSOD Y DASG

Bwriad yw dasg hon yw galluogi'r ymgeiswyr i ddatblygu o leiaf un sgîl celfyddydau perfformio, o restr ar dudalen 6, fel gweithgaredd dysgu estynedig, y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Disgwylir i'r ymgeiswyr gymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu estynedig a chwblhau adroddiad ysgrifenedig, (uchafswm 1,500 gair) sy'n amlinellu'r gweithgareddau penodol y maen nhw wedi'u gwneud, sut mae'r gweithgaredd yn gysylltiedig â'r diwydiant celfyddydau perfformio, dadansoddi a gwerthuso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu ac amlinellu meysydd i'w datblygu ymhellach. Rhaid i'r ymgeiswyr gynnwys o leiaf datganiad tyst gan oruchwyliwr/cyfranogwr o oedolyn, gan gynnwys athrawon. (Gweler tudalen 9 i gael rhagor o arweiniad).

GWNEUD Y DASG

- Rheoli'r dilysrwydd**
Dylai'r ymgeiswyr wneud y gweithgaredd dysgu estynedig hwn y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, rhaid i oedolyn sy'n goruchwyllo dystio i'r gwaith hwn. Rhaid i'r adroddiad ysgrifenedig gael ei gwblhau yn yr ystafell ddosbarth, o dan oruchwyliaeth ffurfiol yr athro/athrawes a all ddilysu'r gwaith. Gall yr ymgeisydd ddefnyddio nodiadau y maen nhw wedi'u casglu yn ystod y broses wrth gwblhau'r adroddiad ysgrifenedig, ond rhaid i'r nodiadau hyn gael eu cyflwyno gyda'r adroddiad.
- Rheoli'r adborth**
Rhaid i'r athro weld nodiadau'r ymgeiswyr wrth baratoi ar gyfer y dasg hon o leiaf **ddwywaith** a ddim mwy na **phedair** gwaith yn ystod y broses. Gall athrawon awgrymu gwelliannau i'r gwaith yn gyffredinol i'r ymgeiswyr. Yn ystod y goruchwyllo ffurfiol ar yr adroddiad ysgrifenedig, gall yr athro roi cyfarwyddyd **cyfyngedig** yn ystod y dasg er mwyn egluro beth sydd i'w wneud. **Rhaid** i'r athro/athrawes **beidio** â rhoi cyngor penodol i'r ymgeiswyr ar gynnwys y gwaith.
- Rheoli'r amser**
Uchafswm yr amser a neilltuir i'r dasg hon yw **3 awr**. Dylid cymryd hyn dros gyfres o wersi. Nid yw hyn yn cyfrif yr amser ar gyfer y gweithgaredd dysgu estynedig, yr ymchwil unigol a'r addysgu a'r dysgu.
- Rheoli'r cydweithio**
Caiff gwaith yr unigolyn ei hysbysu drwy weithio gydag eraill ond gwaith yr unigolyn a gaiff ei asesu.
- Rheoli'r adnoddau**
Mae'r adnoddau sydd ar gael i'r ymgeiswyr yn dibynnu ar y rhai sydd ar gael i'r ganolfan a gall gynnwys defnyddio'r rhyngwrwyd, llyfrau, ac ati.

MARCIO'R DASG

Diffinnir Marcio'r Dasg fel bod iddi lefel ganolig o reolaeth.

- Mae'r athrawon yn marcio'r dasg gan ddefnyddio'r meini prawf marcio isod.
- Mae'r corff dyfarnu'n safoni'r marciau'n allanol gan ddefnyddio sampl trefn restrol, sy'n gyson â gofynion y Cod Ymarfer.

Cyfarwyddiadau i athrawon o ran asesu Tasg wedi'i Rheoli Dau yn fewnol

Caiff y dasg hon wedi'i dyfeisio ei marcio allan o gyfanswm o 30 marc.

Bydd y dasg wedi'i hasesu gan yr athro ac wedi'i safoni'n allanol.

Dylid dilyn y meini prawf canlynol.

Amcanion Asesu Uned 3 Tasg Dau: Dysgu Estynedig yn y Celfyddydau Perfformio (7.5%)

Ystod Marciau	AA3(5)%	Ystod Marciau	AA4 (2.5%)
0	Dim ymateb.	0	Dim ymateb.
1-4	Bydd yr adroddiad yn rhoi ychydig iawn o wybodaeth am y gweithgareddau a wnaed. Ychydig iawn o ddealltwriaeth fydd o'r berthynas rhwng y gweithgaredd a'r diwydiant celfyddydau perfformio.	1-2	Dadansoddiad a gwerthusiad cyfyngedig o'r sgiliau a ddatblygwyd. Bydd y gwerthusiad yn dangos ychydig iawn o nodi'r agweddau cadarnhaol a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach. Dadansoddiad cyfyngedig o'r gallu i ymateb i heriau ac i ddod yn gyfrifol am ei (d)dysgu ei hun. Ychydig iawn o ddealltwriaeth o sut mae'r tasgau'n gysylltiedig â'r Diwydiant Celfyddydau Perfformio. Mae gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu'n debygol o lesteirio'r cyfathrebu ar adegau. Defnydd cyfyngedig o derminoleg y celfyddydau perfformio.
5-8	Bydd yr adroddiad yn rhoi ychydig o wybodaeth am y gweithgareddau a wnaed. Bydd peth dealltwriaeth o'r berthynas rhwng y gweithgaredd a'r diwydiant celfyddydau perfformio.	3-4	Dadansoddiad a gwerthusiad sylfaenol o'r sgiliau a ddatblygwyd. Bydd y gwerthusiad yn dangos ychydig o nodi'r agweddau cadarnhaol a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach. Dadansoddiad sylfaenol o'r gallu i ymateb i heriau ac i ddod yn gyfrifol am ei (d)dysgu ei hun. Ychydig o ddealltwriaeth o sut mae'r tasgau'n gysylltiedig â'r Diwydiant Celfyddydau Perfformio. Gall y mynegiant fod yn lletchwith a bydd gwallau sillafu, gramadeg ac atalnodi'n amlwg. Defnydd sylfaenol o derminoleg y celfyddydau perfformio.
9-12	Bydd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth ddigonol am y gweithgareddau a wnaed. Bydd dealltwriaeth foddhaol o'r berthynas rhwng y gweithgaredd a'r diwydiant celfyddydau perfformio.	5-6	Dadansoddiad a gwerthusiad boddhaol o'r sgiliau a ddatblygwyd. Bydd y gwerthusiad yn dangos rhai agweddau cadarnhaol a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach. Dadansoddiad boddhaol o'r gallu i ymateb i heriau ac i ddod yn gyfrifol am ei (d)dysgu ei hun. Peth dealltwriaeth o sut mae'r tasgau'n gysylltiedig â'r Diwydiant Celfyddydau Perfformio. Bydd y mynegiant yn eglur ar y cyfan, er y bydd gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg. Defnydd boddhaol o derminoleg y celfyddydau perfformio.
13-16	Bydd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth fanwl am y gweithgareddau a wnaed. Bydd dealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng y gweithgaredd a'r diwydiant celfyddydau perfformio.	7-8	Dadansoddiad a gwerthusiad da o'r sgiliau a ddatblygwyd. Bydd y gwerthusiad yn dangos yr agweddau cadarnhaol a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach yn fanwl iawn. Dadansoddiad da o'r gallu i ymateb i heriau ac i ddod yn gyfrifol am ei (d)dysgu ei hun. Dangosir dealltwriaeth fanwl o sut mae'r tasgau'n gysylltiedig â'r Diwydiant Celfyddydau Perfformio. Bydd y mynegiant yn eglur a rhugl gan fwyaf. Gall fod rhai gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg. Defnydd da o derminoleg dechnegol.
17-20	Bydd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth fanwl iawn am y gweithgareddau a wnaed. Bydd dealltwriaeth ardderchog o'r berthynas rhwng y gweithgaredd a'r diwydiant celfyddydau perfformio.	9-10	Dadansoddiad a gwerthusiad ardderchog o'r sgiliau a ddatblygwyd. Bydd y gwerthusiad yn dangos yr agweddau cadarnhaol a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach yn fanwl iawn. Dadansoddiad ardderchog o'r gallu i ymateb i heriau ac i ddod yn gyfrifol am ei (d)dysgu ei hun. Dangosir dealltwriaeth fanwl iawn o sut mae'r tasgau'n gysylltiedig â'r Diwydiant Celfyddydau Perfformio. Bydd y mynegiant yn eglur ac yn rhugl. Prin iawn fydd y gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu. Defnydd ardderchog o derminoleg dechnegol.

5.4.3 Tasg Tri: Paratoi am Berfformiad (7.5%)

Mae'r dasg hon yn asesu'r Amcanion Asesu canlynol:

AA1	cofio, dethol, defnyddio a chyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r celfyddydau perfformio i gynhyrchu, archwilio a datblygu syniadau;	5%
AA3	dangos dealltwriaeth gyd-destunol o'r berthynas rhwng eu gwaith nhw a'r rhai sydd yn y diwydiant celfyddydau perfformio.	2.5%

GOSOD Y DASG

Bwriad y dasg hon yw helpu'r ymgeiswyr i baratoi at berfformiad.

Disgwylir i'r ymgeiswyr gynhyrchu deunyddiau er mwyn paratoi at y Perfformiad wedi'i Gomisiynu (Uned 4). Byddant yn cynhyrchu adroddiad (uchafswm 1,500 gair) yn rhoi rhesymwaith dros eu lleoliad delfrydol i'r perfformiad (nid oes rhaid mai hwn yw'r lleoliad **gwirioneddol** lle mae'r perfformiad yn digwydd), costau, goblygiadau iechyd a diogelwch ar gyfer eu rôl **unigol**, a manylion ar ddeunydd addas i'w gynnwys yn y perfformiad ar gyfer eu sgiliau perfformio unigol eu hunain (**dau** sgil y celfyddydau perfformio) ac o leiaf **un** sgil perfformio arall a amlinellir ar dudalen 6. Dylent hefyd gynnwys deunyddiau marchnata ar gyfer y perfformiad (poster, tocynnau, rhaglen, ac ati).

- Rheoli'r dilysrwydd**
Gall yr ymgeiswyr wneud ymchwil ar y lleoliad, costau, materion iechyd a diogelwch a syniadau perfformio'n seiliedig ar y comisiwn. Fodd bynnag, rhaid dangos y gwaith hwn i'r athro a rhaid ei gyflwyno ynghyd â'r adroddiad ysgrifenedig. Rhaid i'r adroddiad ysgrifenedig a'r deunyddiau marchnata gael eu cwblhau yn yr ystafell ddosbarth, o dan oruchwyliaeth ffurfiol yr athro/athrawes a all ddilysu'r gwaith.
- Rheoli'r adborth**
Rhaid i'r athro/athrawes weld y gwaith ymchwil sydd ar y gweill gan yr ymgeisydd o leiaf **ddwywaith** a dim mwy na **phedair** gwaith yn ystod y broses. Gall athrawon awgrymu gwelliannau i'r gwaith yn gyffredinol i'r ymgeiswyr. Yn ystod y goruchwyllo ffurfiol ar yr adroddiad ysgrifenedig, gall yr athro roi cyfarwyddyd **cyfyngedig** yn ystod y dasg er mwyn egluro beth sydd i'w wneud. **Rhaid** i'r athro/athrawes **beidio** â rhoi cyngor penodol i'r ymgeiswyr ar gynnwys y gwaith.
- Rheoli'r amser**
Uchafswm yr amser a neilltuir i'r dasg hon yw **5 awr**. Dylid cymryd hyn dros gyfres o wersi. Nid yw hyn yn cyfrif yr amser ar gyfer ymchwil unigol a'r addysgu a'r dysgu.
- Rheoli'r cydweithio**
Caiff gwaith yr unigolyn ei hysbysu drwy weithio gydag eraill ond gwaith yr unigolyn a gaiff ei asesu.
- Rheoli'r adnoddau**
Mae'r adnoddau sydd ar gael i'r ymgeiswyr yn dibynnu ar y rhai sydd ar gael i'r ganolfan a gall gynnwys defnyddio'r rhyngwrwyd, llyfrau, perfformiadau theatraidd byw, perfformiadau wedi'u recordio (sain neu fideo) ac ati.

MARCIO'R DASG

Diffinnir Marcio'r Dasg fel bod iddi lefel ganolig o reolaeth.

- Mae athrawon yn marcio'r dasg gan ddefnyddio'r meini prawf marcio isod.
- Mae'r corff dyfarnu'n safoni'r marciau'n allanol gan ddefnyddio sampl trefn restrol, sy'n gyson â gofynion y Cod Ymarfer.

Cyfarwyddiadau i athrawon o ran asesu Tasg dan Reolaeth Tri yn fewnol

Caiff y dasg hon o ei marcio allan o gyfanswm o 30 marc.

Bydd y dasg wedi'i hasesu gan yr athro ac wedi'i safoni'n allanol.

Dylid dilyn y meini prawf canlynol.

Meini Prawf Asesu Uned 3 Tasg Tri: Paratoi am Berfformiad (7.5%)

Ystod Marciau	AA1 (5%)	Ystod Marciau	AA3 (2.5%)
0	Dim ymateb.	0	Dim ymateb.
1-4	Syniadau syml wedi'u cyflwyno ar gyfer eu gwaith eu hunain a gwaith eraill i'w gynnwys yn y perfformiad, gan ddangos peth cysondeb o fewn y dehongliad o'r thema. Deunyddiau marchnata cyfyngedig wedi'u cynhyrchu.	1-2	Rhesymwaith cyfyngedig wedi'i gyflwyno ar y lleoliad a ddewiswyd ac ychydig iawn o fanylion wedi'u cynnwys am gostau a goblygiadau iechyd a diogelwch ar gyfer rôl yr ymgeisydd unigol.
5-8	Ychydig o syniadau creadigol wedi'u cyflwyno ar gyfer eu gwaith eu hunain a gwaith eraill i'w gynnwys yn y perfformiad, gan ddangos dehongliad cyson o'r comisiwn. Deunyddiau marchnata sylfaenol wedi'u cynhyrchu.	3-4	Rhesymwaith sylfaenol wedi'i gyflwyno ar y lleoliad a ddewiswyd ac ychydig o fanylion wedi'u cynnwys am gostau a goblygiadau iechyd a diogelwch ar gyfer rôl yr ymgeisydd unigol.
9-12	Rhai syniadau creadigol wedi'u cyflwyno ar gyfer eu gwaith eu hunain a gwaith eraill i'w gynnwys yn y perfformiad, gan ddangos peth gwreiddioldeb o ran dehongli'r comisiwn. Deunyddiau marchnata boddhaol wedi'u cynhyrchu.	5-6	Rhesymwaith boddhaol wedi'i gyflwyno ar y lleoliad a ddewiswyd a rhai manylion wedi'u cynnwys am gostau a goblygiadau iechyd a diogelwch ar gyfer rôl yr ymgeisydd unigol.
13-16	Syniadau eithaf creadigol wedi'u cyflwyno ar gyfer eu gwaith eu hunain a gwaith eraill i'w gynnwys yn y perfformiad, gan ddangos dehongliad gwreiddiol o'r comisiwn. Deunyddiau marchnata da wedi'u cynhyrchu.	7-8	Rhesymwaith da wedi'i gyflwyno ar y lleoliad a ddewiswyd a manylion wedi'u cynnwys am gostau a goblygiadau iechyd a diogelwch ar gyfer rôl yr ymgeisydd unigol.
17-20	Syniadau ysbrydoledig a chreadigol wedi'u cyflwyno ar gyfer eu gwaith eu hunain a gwaith eraill i'w gynnwys yn y perfformiad, gan ddangos dehongliad gwreiddiol iawn o'r comisiwn. Deunyddiau marchnata ardderchog wedi'u cynhyrchu.	9-10	Rhesymwaith ardderchog wedi'i gyflwyno ar y lleoliad a ddewiswyd a llawer o fanylion wedi'u cynnwys am gostau a goblygiadau iechyd a diogelwch ar gyfer rôl yr ymgeisydd unigol.

Safoni'r Asesiad dan Reolaeth yn Fewnol

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod safoni gofalus yn digwydd lle mae mwy nag un athro'n gyfrifol am farcio'r Asesiad dan Reolaeth. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cysondeb safonau o fewn canolfan. Lle mae angen safoni mewnol, dylai'r athro sy'n cymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros y broses hon ddarparu amlinelliad ysgrifenedig o'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer y safonwr allanol. Dylid adio'r marciau am bob tasg dan reolaeth at ei gilydd i greu cyfanswm allan o 120.

Dilysu Asesiadau wedi'u Rheoli

